

Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol

Medi 2021

Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol

Cynulleidfa

Athrawon ac arweinwyr ysgolion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; ysgolion; cymdeithasau proffesiynol ac undebau athrawon; adrannau addysg llywodraeth ganolog; eraill â diddordeb/buddiant.

Trosolwg

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi'r fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru. Mae'n cynnwys Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ('y Ddogfen') a chanllawiau statudol ar gyfer 2021. Mae'n disodli Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020.

Camau i'w cymryd

Rhaid i gyflogwyr athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru roi sylw i'r ddogfen statudol. Mae Adran 2 ('y Ddogfen') yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith. Dylid ei darllen ar y cyd ag Adran 3 (canllawiau statudol) i gael darlun cyflawn o gyflog ac amodau athrawon yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

SMED2Consultations@gov.wales



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents/enacted

Gall Awdurdodau Lleol ac ysgolion gael rhagor o wybodaeth am gyflogau ar wefan GOV.UK (www.gov.uk/schools-colleges/careers-employment). Gan gynnwys cyngor adrannol anstatudol – *Implementing your school's approach to pay* – a allai fod yn ddefnyddiol i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru.

Cynnwys

Cynnwys	1
Adran 1 - Rhagarweiniol	4
Cyflwyniad	4
Crynodeb o newidiadau a wnaed i gyflogau ac amodau ers 2020	5
Adran 2 – Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021	6
Rhan 1 – Cyflog – Cyffredinol	7
Dyfarniad cyflog mis Medi 2021	7
1. Hawl i gyflog a lwfansau	7
2. Polisi cyflog a gweithdrefnau cwyno	7
3. Amseriad penderfyniadau a hysbysiadau am gyflog	8
Rhan 2 – Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth	10
4. Cyflwyniad	10
5. Pennu grŵp pennaeth yr ysgol	11
6. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arferol	12
7. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arbennig	14
8. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - achosion arbennig	16
9. Pennu ystodau cyflog arweinyddiaeth	17
10. Penderfynu ar daliadau dros dro i benaethiaid	17
11. Datblygiad cyflog aelodau'r grŵp arweinyddiaeth	18
Rhan 3 – Ystodau cyflog athrawon eraill o 1 Medi 2021	20
12. Cyflwyniad	20
13. Y brif raddfa gyflog o 1 Medi 2021	21
14. Y raddfa gyflog uwch o 1 Medi 2021	22
15. Cais i gael cyflog ar y raddfa gyflog uwch	23
16. Yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol o 1 Medi 2021	23
17. Y raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso o 1 Medi 2021	24
18. Athro heb gymhwyso sy'n dod yn athro cymwysedig	24
19. Datblygiad cyflog	25
Rhan 4 – Lwfansau a thaliadau eraill i athrawon dosbarth	27
20. Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD)	27
21. Lwfansau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	28
22. Lwfans sy'n daladwy i athrawon heb gymhwyso	29
23. Lwfans dros dro	29
24. Taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad	30
25. Dyletswyddau preswyl	30

26.	Taliadau ychwanegol	31
27.	Cymhellion a buddiannau recriwtio a chadw	31
28.	Trefniadau aberthu cyflog	32
Rhan 5 –Diogelu cyffredinol		33
29.	Amgylchiadau cyffredinol lle mae diogelu yn gymwys	33
30.	Hawl i gael swm a ddiogelir	34
31.	Hysbysiad o ddiogelu	35
32.	Y cyfnod diogelu	35
33.	Cyfrifo dyddiadau perthnasol	37
34.	Atal y swm a ddiogelir a'i leihau'n rhannol	37
35.	Dyletswyddau ychwanegol	37
36.	Amrywiol	38
37.	Diogelu cyffredinol - athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005	38
Rhan 6 – Atodol		42
38.	Athrawon digyswllt	42
39.	Athrawon rhan amser - dehongli	42
40.	Pennu tâl athrawon rhan amser	43
41.	Athrawon a gyflogir ar fyr rybudd	43
Rhan 7 – Fframwaith Cytundebol i Athrawon		44
42.	Cyflwyniad	44
43.	Penaethiaid - prif ofynion	44
44.	Dirprwyo	44
45.	Cyfrifoldebau proffesiynol	45
46.	Hawliau a roddwyd	46
	Athrawon – cyfrifoldebau proffesiynol	47
47.	Dirprwy bennaethiaid a phenaethiaid cynorthwyl	47
48.	Athrawon ar yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol	47
49.	Athrawon nad ydynt yn bennaeth	47
50.	Oriau gwaith	49
	Hawliau a roddir - pob athro	51
51.	Hawliau cyffredinol	51
Atodiad 1: Safonau athrawon		53
	Cyflwyniad	53
	Safonau athrawon	53
	Safonau athrawon wrth eu gwaith	53
Atodiad 2: Dehongli		54

Atodiad 3 - Canllawiau i Awdurdodau Lleol, Arweinwyr Ysgol, Athrawon Ysgol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (mewn perthynas â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Adran 2 uchod))	60
Polisi cyflog (paragraff 2)	60
Cyflog y grŵp arweinyddiaeth (paragraffau 4-11)	61
Symud i'r raddfa gyflog uwch (paragraff 15)	65
Athrawon a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol (paragraff 16)	66
Athrawon digyswllt (paragraff 38)	66
Tâl athrawon rhan amser (paragraffau 39-40)	67
Lwfansau a thaliadau eraill	69
Lwfans ADY (paragraff 21)	71
Taliadau ychwanegol (paragraff 26)	72
Diogelu (paragraffau 29-37)	76
Oriau gwaith (paragraff 50)	77
Ffynonellau gwybodaeth bellach	79
Adnoddau defnyddiol a sefydliadau allanol	79
Deddfwriaeth berthnasol a chyingor adrannol	79
Adnoddau eraill	79

Adran 1 - Rhagarweiniol

Noder: Nid yw'r adran ragarweiniol hon yn rhan o'r statud (y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn Adran 2 y cyhoeddiad hwn) na'r canllawiau statudol (yn Adran 3 y cyhoeddiad hwn).

Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflogau athrawon yng Nghymru, sy'n cynnwys Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (y Ddogfen) a'r canllawiau statudol. Cafodd y swyddogaethau i ragnodi cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru eu trosglwyddo o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru ar 30 Medi 2018 gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018¹. Felly, mae datganoli cyflog ac amodau athrawon i Lywodraeth Cymru yn golygu mai Dogfen 2018 oedd y Ddogfen olaf a oedd yn gymwys i athrawon yng Nghymru a Lloegr. O Ddogfen 2019 ymlaen, mae'n berthnasol i Gymru yn unig; nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer bellach i ragnodi cyflog ac amodau ar gyfer athrawon yng Nghymru.
2. Nodir y gofynion statudol ar gyfer cyflog ac amodau athrawon ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn y Ddogfen, a rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol (ALLau) gydymffurfio â hwy. Rhydd Deddf Addysg 2002 (Y Ddeddf) yr awdurdod i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar faterion yn ymwneud â chyflog ac amodau, a rhaid i'r rheini dan sylw eu dilyn. Mae'n ofynnol i ALLau a chyrrff llywodraethu ddilyn y canllawiau statudol, ac mewn perthynas â chanllawiau ar faterion gweithdrefnol, efallai y bydd llys neu dribiwnlys yn ystyried unrhyw fethiant i wneud hynny mewn unrhyw achos. Yn fras, mae hyn yn golygu y byddai angen i unrhyw barti nad yw'n dilyn y canllawiau hyn gael rheswm da i beidio â gwneud hynny a byddai angen iddo allu cyfiawnhau unrhyw wriad oddi wrthynt.
3. Mae'r Ddogfen a'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio mewn ymateb i argymhellion a wnaed yn nhrydydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC), a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin 2021. Nodir manylion y diwygiadau i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2020 isod.
4. Ymgynghorwyd ag undebau athrawon, cyflogwyr a phartion perthnasol eraill â buddiant ynghylch y diwygiadau hyn fel rhan o'r broses ymgynghori statudol arferol.

¹ O.S. 2018/644

Crynodeb o newidiadau a wnaed i gyflogau ac amodau ers 2020

5. Mae'r prif newidiadau a wnaed i'r Ddogfen a'r canllawiau ategol ers 2020 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog mis Medi 2021, ac yn egluro'r sefyllfa o ran y brif raddfa gyflog pum pwynt, datblygiad cyflog a pherfformiad a datblygiad cyflog ar yr ystod cyflog uwch. Ychwanegwyd cyfres o egwyddorion gorfodol a dewisol hefyd ar gyfer cludadwyedd cyflog ac eglurhad o sefyllfa penaethiaid sy'n gyfrifol am fwy nag un ysgol. At hynny, o ganlyniad i'r ŵyl banc ychwanegol i ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines yn 2022, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/2022, rhaid i athrawon fod ar gael i weithio am 194 diwrnod (1258.5 awr o amser cyfeiriedig) (paragraff 50).

Adran 2 – Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021

Mae'r Ddogfen hon yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag amodau statudol cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru ac fe'i paratowyd gan Weinidogion Cymru gan ddisgwyl y bydd gorchymyn yn cael ei wneud yn unol ag Adran 122 o'r Ddeddf⁽²⁾. Mae'r gorchymyn hwnnw'n cyfeirio at y Ddogfen hon ac yn rhoi cyfarwyddyd bod ei darpariaethau'n weithredol yn unol ag ef, yn unol ag adran 124(3) o'r Ddeddf. Bydd y gorchymyn yn Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol Cymru 2021 ("y Gorchymyn").³

Mae'r Ddogfen hon yn berthnasol i athrawon a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd (heblaw mewn sefydliad a gynhelir gan awdurdod lleol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol).

Pan ddaw'r Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2021, bydd y Ddogfen hon yn disodli Dogfen 2020 a ddygwyd i rym gan Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2020⁽⁴⁾. Bydd y darpariaethau yn adran 2 o'r Ddogfen hon yn dod i rym yn ôl-weithredol o 1 Medi 2021, fel y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn.

² Deddf Addysg 2002 (p.32.).

³ O.S.

⁴ O.S. 2020/1121

Rhan 1 – Cyflog – Cyffredinol

Dyfarniad cyflog mis Medi 2021

Mewn ymateb i'r argymhellion yn nhrydydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, o 1 Medi 2021:

- i. Cymhwyswyd codiad o 1.75% i'r holl bwyntiau graddfa statudol a lwfansau.
- ii. Bydd yr holl godiadau tâl yn weithredol o 1 Medi 2021.

1. Hawl i gyflog a lwfansau

- 1.1. Yn amodol ar baragraffau 29 i 36, a 38, mae gan athro cymwysedig neu athro heb gymhwyso mewn swydd lawn amser yr hawl i gael tâl sy'n cynnwys cyflog a bennwyd yn unol â Rhannau 2 neu 3 ac unrhyw lwfansau sy'n daladwy yn unol â Rhannau 4 a 5.
- 1.2. Rhaid i'r corff perthnasol bennu bod athro graddedig neu athro ar y cynllun hyfforddi athrawon sy'n seiliedig ar gyflogaeth:
 - a) yn mynd i gael ei dalu a bod yn gymwys i hawlio lwfansau fel athro cymwysedig; neu
 - b) yn mynd i gael ei dalu a bod yn gymwys i hawlio lwfansau fel athro heb gymhwyso.
- 1.3. Mae gan athro a gyflogir o dan drefniant rhan amser yr hawl i gael tâl sy'n cynnwys cyflog ac unrhyw lwfansau y mae gan yr athro yr hawl i'w cael, wedi'u cyfrifo yn unol â pharagraffau 36.1, 39 a 40.
- 1.4. Mae gan athro a gyflogir mewn ysgol â chyllideb ddirprwyedig yr hawl i gael unrhyw dâl gan yr awdurdod y mae gan yr athro'r hawl i'w cael yn rhinwedd darpariaethau'r Ddogfen hon neu unrhyw benderfyniadau a wneir yn unol â hi.

2. Polisi cyflog a gweithdrefnau cwyno

- 2.1. Mae'n rhaid i'r corff perthnasol:
 - a) fabwysiadu polisi sy'n nodi ar ba sail y mae'n pennu cyflog athrawon ac erbyn pa ddyddiad y bydd yn penderfynu adolygiadau cyflog blynyddol yr athrawon; a

- b) bennu gweithdrefnau er mwyn ymdrin â chwynion athrawon mewn perthynas â'u cyflog yn unol â [Chod Ymarfer ACAS](#).

3. Amseriad penderfyniadau a hysbysiadau am gyflog

3.1. Yn amodol ar baragraff 3.3, rhaid i dâl athro gael ei bennu:

- a) yn flynyddol, yn weithredol o 1 Medi;
- b) pryd bynnag y bydd athro'n dechrau swydd newydd (gan gynnwys dechrau swydd yn y grŵp arweinyddiaeth, neu'r dyletswyddau a neilltuir i athro a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol) ar ddyddiad ac eithrio'r dyddiad a nodir ym mholisi cyflog yr ysgol ar gyfer y penderfyniad cyflog blynyddol, yn weithredol o'r adeg y bydd yr athro'n dechrau'r swydd honno;
- c) pan ddaw athro'n gymwys i gael ei dalu ar y raddfa gyflog uwch yn unol â pharagraff 14; neu
- d) ar unrhyw adeg arall pan fethir â newid cyflog athro mewn unrhyw amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn y Ddogfen hon.

3.2. Wrth bennu tâl athro, rhaid i'r corff perthnasol ystyried ei bolisi cyflog a swydd arbennig yr athro yn ei strwythur staffio.

3.3. Pan fydd y corff perthnasol yn penderfynu gostwng tâl athro, ni chaiff y penderfyniad hwnnw fod yn weithredol cyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad.

3.4. Pan fydd y corff perthnasol wedi pennu tâl athro, rhaid iddo sicrhau, cyn gynted ag y bo modd a, sut bynnag, cyn pen mis ar ôl gwneud y penderfyniad, bod yr athro'n cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw, ac am unrhyw daliadau neu fuddiannau ariannol eraill a ddyfarnwyd o dan baragraff 27; unrhyw symiau a ddiogelir y mae gan yr athro'r hawl i'w cael o dan baragraffau 29 i 36; lle mae modd archwilio copi o strwythur staffio a pholisi cyflog yr ysgol; a:

- a) pan fo'r athro'n aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu'n cael ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, ar ba sail y gwnaed y penderfyniad ynghylch ei dâl, a'r meini prawf a ddefnyddir er mwyn adolygu'r cyflog yn y dyfodol;
- b) pan benodwyd yr athro yn aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol am gyfnod penodedig neu o dan gytundeb tymor penodol, am y dyddiad neu, lle y bo'n briodol, yr amgylchiad a fydd yn dod â'r cyfnod penodol neu'r contract tymor penodol i ben;
- c) pan fo'r athro yn athro dosbarth neu'n athro heb gymhwysu a bod y corff perthnasol wedi gwneud penderfyniad amdano o dan baragraff 1.2(a), am:

- i. safle'r athro o fewn y raddfa gyflog a nodir ym mharagraffau 13 ac 14;
 - ii. natur a gwerth unrhyw lwfans a ddyfarnwyd o dan baragraff 21; a
 - iii. mewn perthynas ag unrhyw daliad cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD) a ddyfarnwyd o dan baragraff 20, ei werth, natur y cyfrifoldeb sylweddol y gwnaed y dyfarniad amdano ac, os gwneir y dyfarniad tra bydd yr athro mewn swydd arall tra bydd deiliad y swydd honno yn absennol dros dro, ar ba ddyddiad ac o dan ba amgylchiadau (os byddant yn digwydd cyn y dyddiad hwnnw) y daw i ben ac, ar gyfer CAD3au, datganiad na chaiff y CAD ei ddiogelu.
- d) pan fo'r athro yn athro heb gymhwyso ac nid yw paragraff 3.4(c) yn berthnasol iddo, am:
- i. safle'r athro ar raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso a bennir o dan baragraff 17; a
 - ii. gwerth unrhyw lwfans athro heb gymhwyso a ddyfernir o dan baragraff 22 a'r cyfrifoldeb, y cymwysterau neu'r profiad ychwanegol y dyfarnwyd y lwfans yn eu cylch.

3.5. Yn y paragraff hwn, ystyr "cydnabyddiaeth" yw cyflog ynghyd ag unrhyw lwfansau, ond nad yw'n cynnwys unrhyw swm sy'n cael ei dalu dan baragraffau 25 a 26.

Rhan 2 – Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth

4. Cyflwyniad

- 4.1. Dim ond at yr unigolion a benodir i swydd arweinyddiaeth ar neu ar ôl 1 Medi 2014, neu y mae eu cyfrifoldebau wedi newid yn sylweddol ar ôl y dyddiad hwnnw y dylid cymhwyso'r newidiadau i'r ffordd y penderfynir ar gyflog grŵp arweinyddiaeth a gyflwynir yn y Ddogfen 2014. Y corff llywodraethu fydd yn penderfynu, yn sgil amgylchiadau a chyd-destun penodol yr ysgol, i ba raddau y dylid ystyried unrhyw newid yn newid 'sylweddol'. Wrth wneud hynny, bydd y corff llywodraethu am roi sylw penodol i ba raddau mae'r newid yn creu lefelau newydd o atebolrwydd a chyfrifoldeb ar gyfer aelod neu aelodau'r grŵp arweinyddiaeth.
- 4.2. Caiff ysgolion ddewis adolygu tâl pob un o'i swyddi arweinyddiaeth yn unol â'r trefniadau newydd, os penderfynir bod angen gwneud hyn er mwyn bod yn gyson â'r trefniadau cyflog ar gyfer penodiadau newydd i'r grŵp arweinyddiaeth, neu'r trefniadau cyflog i aelodau neu aelodau'r grŵp arweinyddiaeth y mae eu cyfrifoldebau wedi newid yn sylweddol.
- 4.3. Ar ôl cydymffurfio â gofynion paragraffau 4.4, 5 a 10, rhaid i'r corff perthnasol bennu cyflog i bennaethiaid, dirprwy bennaethiaid neu bennaethiaid cynorthwyol.
- 4.4 Colofn gyflog ar gyfer y grŵp arweinyddiaeth
 - a. Rhaid i bennaeth gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar golofn gyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir yn is-baragraff 4d fel y mae'r corff perthnasol yn ei bennu yn unol â pharagraff 9.
 - b. Rhaid i ddirprwy bennaeth gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar golofn gyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir yn is-baragraff 4d fel y mae'r corff perthnasol yn ei bennu yn unol â pharagraff 9.
 - c. Rhaid i bennaeth cynorthwyol gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar golofn gyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir yn is-baragraff 4d fel y mae'r corff perthnasol yn ei bennu yn unol â pharagraff 9.
 - d. Y golofn gyflog ar gyfer aelodau'r grŵp arweinyddiaeth yw –

Y GRŴP ARWEINYDDIAETH

	2020 £	2021 £		2020 £	2021 £
1	42,195	42,934	24*	73,559	74,847
2	43,251	44,008	24	74,295	75,596
3	44,331	45,107	25	76,141	77,474
4	45,434	46,230	26	78,025	79,391
5	46,566	47,381	27*	79,167	80,553
6	47,735	48,571	27	79,958	81,358
7	49,019	49,877	28	81,942	83,376
8	50,151	51,029	29	83,971	85,441
9	51,402	52,302	30	86,061	87,568
10	52,723	53,646	31*	87,313	88,841
11	54,091	55,038	31	88,187	89,731
12	55,338	56,307	32	90,379	91,961
13	56,721	57,714	33	92,624	94,245
14	58,135	59,153	34	94,914	96,575
15	59,581	60,624	35*	96,310	97,996
16	61,166	62,237	35	97,273	98,976
17	62,570	63,665	36	99,681	101,426
18*	63,508	64,620	37	102,159	103,947
18	64,143	65,266	38	104,687	106,520
19	65,735	66,886	39*	106,176	108,035
20	67,364	68,543	39	107,239	109,116
21*	68,347	69,544	40	109,914	111,838
21	69,031	70,240	41	112,660	114,632
22	70,745	71,984	42	115,483	117,504
23	72,497	73,766	43	117,197	119,248

* Y pwyntiau hyn a phwynt 43 yw uchafsymiau'r cyflogau ar gyfer ystodau'r wyth grŵp o benaethiaid

5. Pennu grŵp pennaeth yr ysgol

- 5.1. Rhaid i'r corff perthnasol neilltuo ei ysgol i grŵp pennaeth at ddibenion paragraffau 9 ac 11 yn unol â'r paragraff hwn a pharagraffau 6, 7, 8 ac 9.
- 5.2. Rhaid i ysgol gael ei neilltuo i grŵp pennaeth pryd bynnag y bydd y corff perthnasol yn ystyried bod hynny'n addas.

5.3. Mae grwpiau pennaeth, a'r ystodau cyflog mewn perthynas â hwy fel a ganlyn:

Ystodau cyflogau blynyddol penaethiaid yng Nghymru 2021

	O £	I £
Grŵp 1	48,571	64,620
Grŵp 2	51,029	69,544
Grŵp 3	55,038	74,847
Grŵp 4	59,153	80,553
Grŵp 5	65,266	88,841
Grŵp 6	70,240	97,996
Grŵp 7	75,596	108,035
Grŵp 8	83,376	119,248

6. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arferol

6.1. Yn ddarostyngedig i baragraff 8, rhaid i ysgol arferol gael ei neilltuo i grŵp pennaeth yn unol â'r tabl canlynol, drwy gyfeirio at ei chyfanswm sgôr uned, a gyfrifir yn unol â pharagraffau 6.1 a 6.5:

Cyfanswm sgôr unedau	Grŵp
Hyd at 1,000	1
1,001 i 2,200	2
2,201 i 3,500	3
3,501 i 5,000	4
5,001 i 7,500	5
7,501 i 11,000	6
11,001 i 17,000	7
17,001 a throsodd	8

- 6.2. Yn ddarostyngedig i baragraffau 6.3 i 6.5, rhaid i gyfanswm sgôr yr unedau gael ei bennu yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol	Unedau fesul disgybl
I bob disgybl yn y cyfnod rhagarweiniol a phob disgybl yn y cyfnod allweddol cyntaf neu'r ail gyfnod allweddol	7
I bob disgybl yn y trydydd cyfnod allweddol	9
I bob disgybl yn y pedwerydd cyfnod allweddol	11
I bob disgybl yn y pumed cyfnod allweddol	13

- 6.3. Rhaid pennu nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol a nifer y disgyblion ym mhob cyfnod allweddol yn ôl y niferoedd fel y'u dangosir yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ran yr ysgol.
- 6.4. Rhaid i bob disgybl y mae ganddo ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, gael ei gyfrif fel tair uned yn fwy nag y byddai'n cael ei gyfrif fel arall yn rhinwedd paragraff 6.2, ac os nad yw mewn dosbarth arbennig, rhaid ei gyfrif fel tair uned o'r fath dim ond os bydd y corff perthnasol yn penderfynu felly.
- 6.5. Rhaid i bob disgybl sy'n mynychu am hanner diwrnod ar y mwyaf bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol, gael ei gyfrif fel hanner yr unedau ag y byddai'n cael ei gyfrif fel arall, yn unol â pharagraffau 6.2 neu 6.4.
- 6.6. Gallai nifer o amgylchiadau godi lle byddai'n briodol penodi pennaeth yn barhaol i fod yn gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol, er bod yn rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y gofyniad bod yn rhaid iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau proffesiynol a chydymffurfio â'u contract cyflogaeth, heb ychwanegiadau afresymol i'w hamser gweithio. Pan fo'r pennaeth wedi cael ei benodi'n bennaeth ar fwy nag un ysgol ar sail barhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y pennaeth neu, yn unol â'r Rheoliadau Cydlafurio⁽⁵⁾, y corff sy'n cydlafurio, bennu grŵp y pennaeth drwy gyfuno sgôr unedau'r holl ysgolion y mae'r pennaeth yn gyfrifol amdanynt i gael cyfanswm sgôr unedau, sydd wedyn yn pennu grŵp y pennaeth.
- 6.7. Dylai'r corff perthnasol oruchwyllo rôl gyfan pennaeth ac unrhyw gyfrifoldebau cyflogedig sy'n gysylltiedig â'r rôl. Dylai hyn sicrhau y gall y corff perthnasol wneud penderfyniad cwbl wybodus am y rôl briodol i'r pennaeth ac unrhyw oblygiadau

⁵ Rheoliadau Cydlafurio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 (O.S. 2012/2655)).

canlyniadol i dâl staff eraill a allai fod yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yng ngoleuni rôl ehangach y pennaeth.

7. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arbennig

- 7.1. Yn ddarostyngedig i baragraff 8, rhaid neilltuo ysgol arbennig i grŵp pennaeth yn unol â'r tabl canlynol drwy gyfeirio at gyfanswm addasedig ei sgôr unedau a gyfrifir yn unol â pharagraffau 7.2 i 7.8:

Cyfanswm addasedig sgôr unedau	Grŵp
Hyd at 2,200	2
2,201 i 3,500	3
3,501 i 5,000	4
5,001 i 7,500	5
7,501 i 11,000	6
11,001 i 17,000	7
17,001 a throsodd	8

- 7.2. Rhaid i'r corff perthnasol gyfrifo cyfran y staff i'r disgyblion yn yr ysgol, wedi'i mynegi fel canran ("y gymhareb rhwng staff a disgyblion") yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \times 100$$

Ile mae A yn cyfateb i nifer yr athrawon a'r staff cymorth wedi'i phwysoli fel y darperir ym mharagraff 7.3, ac mae B yn cyfateb i nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i phwysoli fel y darperir ym mharagraff 7.4.

- 7.3. Y pwysoliad ar gyfer athro yw dwy uned ar gyfer pob athro cyfwerth â llawn amser, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod o staff cymorth yw un uned ar gyfer pob unigolyn cyfwerth ag amser llawn.
- 7.4. Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn amser yw un uned a'r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan amser yw hanner uned.

- 7.5. Rhaid i'r corff perthnasol gyfrifo addasydd y gymhareb staff a disgyblion yn unol â'r tabl canlynol drwy gyfeirio at y gymhareb staff a disgyblion a bennir yn unol â pharagraffau 7.2 i 7.4:

Cymhareb staff a disgyblion	Addasydd cymhareb staff a disgyblion
1 - 20%	1
21 - 35%	2
36 - 50%	3
51 - 65%	4
66 - 80%	5
81% neu fwy	6

- 7.6. Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr unedau'r ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol (CA)	Unedau fesul disgybl
I bob disgybl yn y cyfnod rhagarweiniol a phob disgybl yn y cyfnod allweddol cyntaf neu'r ail gyfnod allweddol	10
I bob disgybl yn y trydydd cyfnod allweddol	12
I bob disgybl yn y pedwerydd cyfnod allweddol	14
I bob disgybl yn y pumed cyfnod allweddol	16

- 7.7. Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm addasedig sgôr unedau'r ysgol trwy luosi cyfanswm sgôr unedau'r ysgol a bennir o dan baragraff 7.6, ag addasydd y gymhareb staff a disgyblion a gyfrifir dan baragraff 7.5.
- 7.8. Yn y paragraff hwn:
- rhaid i nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol gael ei phennu gan y niferoedd fel y'u dangosir yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i'r Lywodraeth Cymru ar ran yr ysgol; ac
 - ystyr "aelod o staff cymorth" yw aelod o staff yr ysgol nad yw'n:
 - athro;
 - rhywun a gyflogir mewn cysylltiad â darparu prydau;
 - rhywun a gyflogir mewn cysylltiad â diogelwch neu gynnal a chadw safle'r ysgol; neu
 - rhywun a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio disgyblion a gofalu am ddisgyblion y tu allan i oriau ysgol.

- 7.9. Gallai nifer o amgylchiadau godi lle byddai'n briodol penodi pennaeth yn barhaol i fod yn gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol, er bod yn rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y gofyniad bod yn rhaid iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau proffesiynol a chydymffurfio â'u contract cyflogaeth, heb ychwanegiadau afresymol i'w hamser gweithio. Pan fo'r pennaeth wedi cael ei benodi'n bennaeth ar fwy nag un ysgol o dan drefniant parhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y pennaeth neu, yn unol â'r Rheoliadau Cydlafurio⁽⁶⁾, y corff sy'n cydlafurio, bennu grŵp y pennaeth drwy gyfuno sgôr unedau'r holl ysgolion y mae'r pennaeth yn gyfrifol amdanynt i gael cyfanswm sgôr unedau, sydd wedyn yn pennu grŵp y pennaeth.

8. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - achosion arbennig

Newidiadau disgwylidig yn nifer y disgyblion cofrestredig a sefydliadau addysgu

- 8.1. Yn ddarostyngedig i baragraff 8.2, pan fydd y corff perthnasol yn disgwyl i gyfanswm sgôr unedau yn achos ysgol arferol, neu gyfanswm addasedig sgôr unedau yn achos ysgol arbennig, gynyddu neu ostwng ar ôl y dyddiad y mae'r broses neilltuo yn cyfeirio ato, caiff y corff perthnasol neilltuo'r ysgol i'r grŵp priodol a fyddai'n deillio o'r newid disgwylidig mewn niferoedd.
- 8.2. Os mai corff llywodraethu ysgol â chyllideb ddirprwyedig yw'r corff perthnasol, ni cheir neilltuo'r ysgol hyd nes yr ymgynghorir â'r awdurdod.

Ysgolion newydd

- 8.3. Yn ddarostyngedig i baragraffau 8.4 a 8.5, yn achos ysgol sydd newydd agor neu ysgol nad yw wedi agor eto, rhaid i'r corff perthnasol neilltuo'r ysgol i'r grŵp sy'n briodol i gyfanswm sgôr unedau yn achos ysgol arferol ac, yn achos ysgol arbennig, i gyfanswm addasedig y sgôr unedau a ddisgwylir gan yr awdurdod neu, yn achos ysgol â chyllideb ddirprwyedig, a ddisgwylir gan y corff llywodraethu ar ôl ymgynghori â'r awdurdod, i fod yn berthnasol heb fod yn llai na phedair blynedd o'r dyddiad agor.
- 8.4. Rhaid i'r corff perthnasol, yn ôl yr angen, ddiwygio'r grŵp y mae wedi'i neilltuo iddo wrth i'r disgwyliadau y seiliwyd ei gyfrifiad arno newid.
- 8.5. Os mai corff llywodraethu ysgol â chyllideb ddirprwyedig yw'r corff perthnasol, ni cheir neilltuo'r ysgol hyd nes yr ymgynghorir â'r awdurdod.

⁶ Rheoliadau Cydlafurio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 (O.S.2012/2655).

9. Pennu ystodau cyflog arweinyddiaeth

- 9.1. Rhaid i'r corff perthnasol bennu ystodau cyflog i bennaethiaid ac i ddirprwy bennaethiaid neu bennaethiaid cynorthwyol yn unol â pharagraffau 9.2 i 9.4.
- 9.2. Wrth bennu ystod cyflog priodol, rhaid i'r corff perthnasol ystyried holl gyfrifoldebau parhaol y rôl, unrhyw heriau sy'n benodol i'r rôl, a phob ystyriaeth berthnasol arall. Yn achos penodiad newydd, efallai y bydd y corff perthnasol am ystyried a yw gofynion y swydd a'r graddau y mae'r ymgeisydd dewisol yn bodloni'r gofynion hynny yn golygu y byddai'n briodol pennu cyflog cychwynnol uwchlaw'r isafswm ar gyfer grŵp perthnasol y pennaeth. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod cyfle priodol o fewn yr ystod ar gyfer datblygiad dros amser.
- 9.3. Ni ddylai ystodau cyflog ar gyfer pennaethiaid fel arfer fynd uwchlaw'r uchafswm i grŵp y pennaeth. Fodd bynnag, caiff ystod cyflog y pennaeth fynd uwchlaw'r uchafswm lle mae'r corff perthnasol yn penderfynu bod yr amgylchiadau penodol i'r rôl neu'r ymgeisydd yn cyfiawnhau taliad uwch nag arfer. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau na fydd uchafswm ystod cyflog y pennaeth ynghyd ag unrhyw daliadau ychwanegol a wneir o dan baragraff 10 yn mynd uwchlaw uchafswm grŵp y pennaeth o fwy na 25% oni fydd amgylchiadau eithriadol; o dan y cyfryw amgylchiadau, rhaid i'r corff llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol cyn cytuno i'r fath drefniant a sicrhau bod achos busnes i ategu ei benderfyniad.
- 9.4. Ni chaiff uchafswm ystod cyflog y dirprwy bennaeth na'r pennaeth cynorthwyol fod yn uwch nag uchafswm grŵp y pennaeth ar gyfer yr ysgol, wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraffau 6 i 8. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol orgyffwrdd ag ystod cyflog pennaeth.

10. Penderfynu ar daliadau dros dro i bennaethiaid

- 10.1. Yn ddarostyngedig i baragraffau 10.2 i 10.4, caiff y corff perthnasol benderfynu y gellir gwneud taliadau i bennaethiaid am gyfrifoldebau neu ddyletswyddau sy'n amlwg yn rhai dros dro ac yn ychwanegol at y swydd y pennwyd eu cyflog ar ei chyfer. Mewn achos o'r fath mae'n rhaid nad yw'r corff perthnasol wedi ystyried rheswm neu amgylchiadau o'r fath o'r blaen wrth bennu ystod cyflog y pennaeth.
- 10.2. Yn ddarostyngedig i baragraff 10.3, ni chaiff cyfanswm taliadau dros dro a wneir i bennaeth yn unol â pharagraff 10.1 mewn unrhyw flwyddyn ysgol benodol fod yn fwy na 25% o'r cyflog blyneddol sydd fel arall yn daladwy i'r pennaeth, ac ni chaiff cyfanswm y cyflog a thaliadau eraill a wneir i bennaeth fod yn fwy na 25% uwchlaw uchafswm grŵp y pennaeth, oni nodir ym mharagraff 10.4.

10.3. Nid yw paragraff 10.2 yn berthnasol i daliadau ychwanegol a wneir yn unol â:

- a) pharagraff 25 lle mae'r dyletswyddau preswyl hynny yn rhan o ofynion y swydd; neu
- b) pharagraff 27 i'r graddau ag y mae'r taliad mewn perthynas â threuliau tai neu adleoli sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol y pennaeth hwnnw yn unig.

10.4. Caiff y corff perthnasol benderfynu y bydd pennaeth yn cael taliadau ychwanegol a fydd yn uwch na'r terfyn a bennwyd ym mharagraff 10.2 o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, ac ar ôl sicrhau cytundeb y corff llywodraethu. Rhaid i'r corff llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol cyn llunio achos busnes, yn cytuno i'r fath drefniant.

11. Datblygiad cyflog aelodau'r grŵp arweinyddiaeth

11.1. Rhaid i'r corff perthnasol ystyried bob blwyddyn p'un ai neu beidio i gynyddu cyflog aelodau'r grŵp arweinyddiaeth sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y penderfyniad cyflog blynyddol blaenorol yn unol a pharagraff 4.4 a, lle y bo'n gymwys, 5.3 a 9.1.

11.2. Rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sut y bydd y datblygiad cyflog o fewn yr ystod cyflog priodol a osodir yn unol â pharagraff 9 yn cael ei bennu, yn amodol ar y canlynol:

- a. Dylai pwyntiau cyflog sydd eisoes yn bodoli gael eu cymhathu i bwynt cyfatebol ar y graddfeydd priodol ar gyfer 2021 ym mharagraff 4. Dylai unrhyw bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol nad yw eu cyflog presennol yn cyfateb yn uniongyrchol â phwynt o'r fath gael eu cymhathu i'r pwynt uchaf nesaf ar y raddfa.
- b. Dylai datblygiad cyflog fod ar sail blynyddol o 1 Medi, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad oni bai i'r unigolyn gael gwybod bod gweithdrefnau medruswydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- c. Gallai'r corff perthnasol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yr oedd eu perfformiad yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol yn ardderchog, mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt yn benodol. Rhaid i'r disgresiwn i ddyfarnu pwynt ychwanegol os yw'r perfformiad wedi bod yn ardderchog gael ei nodi ym mholisi cyflog y corff perthnasol.

- d. Dylai penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol sydd newydd gael eu penodi gael eu rhoi ar bwynt graddfa addas eu hystodau cyflog priodol ar gyfer 2021, fel yr amlinellir ym mholisi cyflog y corff perthnasol.
- e. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad os bydd pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn destun gweithrediadau medrusrwydd.
- f. Pan fydd corff perthnasol, yn unol â darpariaethau Dogfen gynharach, wedi pennu ystod cyflog y mae'r uchafswm yn uwch na'r cyflog uchaf sy'n daladwy o dan y Ddogfen hon, rhaid iddo barhau i dalu unrhyw gyflog a bennir drwy gyfeirio at yr ystod cyflog honno tan y cyfryw adeg ag y mae'n ailasesu ystod cyflog ei swyddi arweinyddiaeth o dan ddarpariaethau'r Ddogfen hon.

Rhan 3 – Graddfeydd cyflog athrawon eraill o 1 Medi 2020

12. Cyflwyniad

12.1. Mae pedair raddfa gyflog ar gyfer athrawon eraill:

- i. y brif raddfa gyflog ar gyfer athrawon cymwysedig nad oes ganddynt hawl i gael eu talu ar unrhyw raddfa gyflog arall;
- ii. y raddfa gyflog uwch;
- iii. yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol; ac
- iv. y raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso.

12.2. Rhaid i unrhyw godiad cyflog neu swm a ddiogelir (ar gyfer y cyfnod a ddiogelir) a ddyfernir i athro ar y brif raddfa gyflog, y raddfa gyflog uwch neu'r raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso, yn unol â Rhannau 3, 4 a 5 neu unrhyw symudiad rhwng y graddfeydd cyflog hynny fod yn barhaol cyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi o fewn yr un ysgol.

12.3 Rhaid i'r corff perthnasol gymhwyso'r egwyddor o gludadwyedd cyflog mewn trefniadau i gwmpasu holl symudiadau athrawon rhwng swyddi addysgu yng Nghymru (sy'n gymwys i swyddi ar y Brif Raddfa Gyflog neu'r Raddfa Gyflog Uwch) yn unol â'r egwyddorion gorfodol isod:

- a) Rhaid i'r cludadwyedd cyflog ymwneud â'r sefyllfa y mae athro wedi'i chyrraedd ar y Prif Ystod Cyflog neu'r Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys cyn symud i rôl arwain; nid yw'n ymwneud ag unrhyw lwfansau, na'r sefyllfa a gyrhaeddwyd ar raddfeydd arweinyddiaeth, er y gallai profiad a gafwyd o rolau o'r fath fod yn berthnasol i benderfyniad y cyflogwr newydd ynghylch cyflog.
- b) Pan fo cludadwyedd cyflog yn gymwys, rhaid i'r cyflog a gynigir gan y cyflogwr newydd o leiaf gyfateb i'r pwynt cyflog a gyrhaeddwyd eisoes gan yr athro yn ei swydd addysgu bresennol; dylai hefyd gynnwys unrhyw gynyddran y byddai'r athro wedi disgwyl ei gael pe bai wedi aros yn ei swydd addysgu bresennol ar yr adeg pan fo'r newid cyflogaeth yn digwydd.
- c) Rhaid cymhwyso cludadwyedd cyflog ar sail "pro rata" pan fydd athro yn symud i/o swydd addysgu ran-amser.
- d) Rhaid i gludadwyedd cyflog gwmpasu seibiant mewn gwasanaeth addysgu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu ofal teuluol. Mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr newydd yn bwriadu cymryd safbwynt gwahanol, rhaid i'r seiliau dros wneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydarddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall.

- e) Rhaid penderfynu mai'r pwynt graddfa gyfatebol at ddibenion cludadwyedd cyflog yw'r un y byddai'r athro wedi'i gyrraedd o dan y graddfeydd cyflog sy'n gymwys yng Nghymru ar adeg ymgymryd â'r swydd newydd, pe bai eu blynyddoedd o wasanaeth blaenorol wedi'u talu gan ddefnyddio'r graddfeydd cyflog cyfoes hynny.

12.4 Yn ôl disgrisiwn y corff perthnasol, gellir cymhwyso cludadwyedd cyflog mewn sefyllfaoedd penodol nad ydynt yn dod o dan yr egwyddorion gorfodol a nodir ym mharagraff 12.3. Gall profiad perthnasol gyfrannu'n ddilys at y penderfyniad ynghylch y pwynt graddfa ar gyfer penodiad addysgu yn yr achosion canlynol:

- a) Pan fydd athro cymwysedig yn symud i ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth arall.
- b) Pan fydd athro cymwysedig yn dychwelyd i addysgu yn dilyn cyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i addysgu.

13. Y brif raddfa gyflog o 1 Medi 2021

13.1 Rhaid i athro ar y brif raddfa gyflog gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 2 fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu yn unol ag is-baragraff 3 a pharagraff 19.

13.2 Y raddfa gyflog ar gyfer athrawon dosbarth yw:

Y Brif Raddfa Gyflog

	2020 £	2021 Pwynt Graddfa	2021 £
M1	27,018		
M2	27,018	M2 (isafswm)	27,491
M3	29,188	M3	29,699
M4	31,436	M4	31,987
M5	33,912	M5	34,506
M6	37,320	M6 (uchafswm)	37,974

13.3 Rhaid i'r corff perthnasol bennu'r pwynt, sy'n bwynt isaf neu'n uwch na'r pwynt isaf ar y raddfa gyflog yn is-baragraff 2, y bydd pob athro dosbarth unigol yn cael ei osod yn unol â pharagraff 19.

14. Y raddfa gyflog uwch o 1 Medi 2021

14.1 Rhaid i athro ar y raddfa gyflog uwch gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 2 fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu yn unol ag is-baragraff 3 a pharagraff 19.

14.2 Mae'r raddfa gyflog uwch fel a ganlyn:

Graddfa Gyflog Uwch 2020 – Cyflog Blynyddol

	2020 £	2021 £
Isafswm	38,690	39,368
U2	40,124	40,827
Uchafswm	41,604	42,333

14.3 Rhaid i gorff perthnasol dalu athro ar y raddfa gyflog uwch:

- os caiff yr athro ei gyflogi mewn ysgol fel athro ôl-drothwy, tra bo'r athro yn cael ei gyflogi yn yr ysgol honno heb doriad ym mharhad ei gyflogaeth;
- os gwnaeth yr athro gais i ysgol i gael ei dalu ar y raddfa gyflog uwch yn unol â pharagraff 15 o'r Ddogfen hon, bod y cais hwnnw yn llwyddiannus, bod yr athro yn dal i gael ei gyflogi gan yr ysgol honno, ac na fu toriad ym mharhad ei gyflogaeth; neu
- os oedd yr athro wedi'i gyflogi'n aelod o'r grŵp arweinyddiaeth yn yr ysgol honno, ei fod wedi parhau i gael ei gyflogi gan yr ysgol honno heb doriad ym mharhad ei gyflogaeth, a'i fod wedi'i benodi'n gyntaf fel y cyfryw ar neu ar ôl 1 Medi 2000, ac wedi llenwi swydd neu swyddi o'r fath am gyfnod cyfunol o flwyddyn neu fwy.

ac ni chaiff yr athro ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol nac fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth.

14.4 Gall corff perthnasol dalu athro ar y raddfa gyflog uwch:

- os diffinnir yr athro yn "athro ôl-drothwy" ond nad oedd wedi'i gyflogi'n athro ôl-drothwy yn yr ysgol honno neu wedi'i gyflogi'n athro ôl-drothwy yn yr ysgol honno cyn toriad ym mharhad ei gyflogaeth;
- os gwnaeth yr athro gais yn flaenorol i ysgol arall i gael ei dalu ar y raddfa gyflog uwch yn unol â pharagraff 15 o'r Ddogfen hon a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus;

- c) os oedd yr athro yn cael ei dalu'n flaenorol ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol; neu
- d) yn achos athro digyswllt, os gwnaeth yr athro gais yn flaenorol i gael ei dalu ar y raddfa gyflog uwch (naill ai i sefydliad addysgol neu awdurdod) a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus.

15. Cais i gael cyflog ar y raddfa gyflog uwch

15.1. Caiff athrawon cymwysedig wneud cais i gael eu talu ar y raddfa gyflog uwch o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol â pholisi cyflog yr ysgol. Bydd corff perthnasol yn asesu unrhyw gais o'r fath a gyflwynir ac yn gwneud penderfyniad, yn unol â'u polisi cyflog, ynghylch a yw'r athro'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff 15.2. Pan fydd athro yn ddarostyngedig i reoliadau 2011, bydd y corff perthnasol yn ystyried yr asesiadau a'r argymhellion yn adroddiadau gwerthuso yr athro yn unol â'r rheoliadau hynny.

15.2. Bydd ffurflen gais gan athro cymwysedig yn llwyddiannus pan fydd y corff perthnasol yn fodlon:

- a) bod yr athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol; a
- b) bod cyflawniadau a chyfraniad yr athro i sefydliad neu sefydliadau addysgol yn sylweddol a pharhaus.

15.3. Bydd y polisi cyflog yn nodi'r broses o asesu ceisiadau ac yn egluro sut y bydd y corff perthnasol yn dehongli'r meini prawf ym mharagraff 15.2.

15.4. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff 15 ond yn gymwys i gyflogaeth yn yr un ysgol.

16. Yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol o 1 Medi 2021

16.1. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i athrawon cymwysedig sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi y mae'r corff perthnasol wedi penderfynu mai eu prif ddiben yw modelu ac arwain y broses o wella sgiliau addysgu.

16.2. Ar gyfer unrhyw swydd o'r fath, bydd y corff perthnasol yn penderfynu yn unol â'i bolisi cyflog ar ystod cyflog unigol o fewn yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol yn y paragraff hwn. Gall y corff perthnasol benderfynu y gellid talu swyddi gwahanol yn yr un ysgol ar ystodau cyflog unigol gwahanol o fewn yr un ystod cyflog ymarferwyr arweiniol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod cyfle priodol o fewn pob ystod cyflog unigol ar gyfer datblygiad cyflog ar sail perfformiad dros amser.

- 16.3. Bydd y corff perthnasol yn penderfynu ym mhle, o fewn yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol ar gyfer y swydd benodol honno, y caiff pob athro a gwmpesir gan y paragraff hwn ei dalu. Mae'r ystod cyflog ymarferwyr arweiniol fel a ganlyn:

Ystod Cyflog Ymarferwyr Arweiniol 2021 – Cyflog Blynyddol

	2020 £	2021 £
Isafswm	42,402	43,145
Uchafswm	64,461	65,590

17. Y raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso o 1 Medi 2021

- 17.1. Rhaid i athro heb gymhwyso gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 3 fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu yn unol ag is-baragraff 2 a pharagraffau 18 a 19 isod.
- 17.2 Rhaid i'r corff perthnasol bennu'r pwynt, sy'n bwynt isaf neu'n uwch na'r pwynt isaf ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 3, y bydd pob athro heb gymhwyso yn cael ei osod yn unol â pharagraff 19.
- 17.3 Mae'r raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso fel a ganlyn:

Graddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso 2021 – Cyflog Blynyddol

	2020 £	2021 Pwynt Graddfa	2021 £
1	18,169	1	18,487
2	20,282	2	20,637
3	22,394	3	22,786
4	24,507	4	24,936
5	26,622	5	27,088
6	28,735	6	29,238

18. Athro heb gymhwyso sy'n dod yn athro cymwysedig

- 18.1 Wrth sicrhau statws athro cymwysedig (SAC) yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 132 o'r Ddeddf⁽⁷⁾ rhaid i athro heb gymhwyso gael ei drosglwyddo i gyflog o fewn y brif raddfa gyflog ar gyfer athrawon ym mharagraff 13. Pan fydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi gan yr un ysgol lle y cafodd ei gyflogi cyn iddo sicrhau SAC

⁷ O.S. 2012/724 mewn perthynas â Chymru.

rhaid i'r athro gael cyflog sydd yr un fath, neu uwchlaw, swm y cyflog sy'n daladwy o dan baragraff 17.1 ac unrhyw lwfans sy'n daladwy o dan baragraff 22 (gan gynnwys unrhyw swm a ddiogelir sy'n daladwy o dan baragraff 31), a ystyrir yn briodol gan y corff perthnasol.

- 18.2. Rhaid i athro sy'n sicrhau SAC yn ôl-weithredol yn unol â'r rheoliadau hynny gael cyfandaliad gan y corff perthnasol a oedd yn gyfrifol am ei dalu ar yr adeg pan sicrhodd SAC.
- 18.3. Rhaid i'r cyfandaliad sy'n daladwy o dan baragraff 18.2 gyfateb i'r gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng y tâl a dalwyd i'r athro mewn gwirionedd fel athro heb gymhwyso a'r cyflog (heb gynnwys unrhyw lwfansau) y byddai'r athro wedi'i gael fel athro cymwysedig, o'r dyddiad y sicrhodd SAC i bob pwrpas hyd at y dyddiad pan delir y talpswm.

19. Datblygiad cyflog

- 19.1. Rhaid i'r corff perthnasol ystyried bob blwyddyn p'un a fydd yn cynyddu cyflog athrawon sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y penderfyniad cyflog blynyddol blaenorol neu beidio, fel y nodir ym mharagraffau 13, 14, 16 a 17.
- 19.2. Rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sut y pennir y datblygiad cyflog, yn amodol ar y canlynol:
 - a. Dylai pwyntiau cyflog sydd eisoes yn bodoli gael eu cymhathu i bwynt cyfatebol ar y graddfeydd priodol ar gyfer 2021 ym mharagraffau 13, 14, 16 neu 17. Dylai unrhyw athro nad yw ei gyflog presennol yn cyfateb yn uniongyrchol â'r cyfryw bwynt gael ei gymhathu i'r pwynt uchaf nesaf ar y raddfa.
 - b. Bydd athrawon ar bwynt M1 neu M2 o raddfa gyflog 2020 yn cael eu cymhathu i bwynt M2 ar raddfa 2021.
 - c. Dylai athrawon ar bwynt M3, M4, M5 neu M6 o raddfa gyflog 2020 gael eu cymhathu i'r pwynt cyfatebol ar raddfa 2021.
 - d. Rhaid i'r corff perthnasol hefyd ddyfarnu un pwynt i athro ar bwyntiau graddfa M2 i M5 o ddatblygiad y Brif Raddfa Gyflog ar ôl iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth fel athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai i'r athro gael gwybod bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
 - e. Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu un pwynt i athro ar bwyntiau graddfa 1 i 6 o ddatblygiad Graddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso ar ôl iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth yn graddfeydd y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai i'r athro gael gwybod bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

- f. Dylai Datblygiad Cyflog ar y brif raddfa gyflog bum pwynt a amlinellir ym mharagraff 13, ac ar y raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso ym mharagraff 17, fod ar sail blynyddol o 1 Medi, ac o blaid datblygiad oni bai i unigolyn gael gwybod bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r flwyddyn honno'.
- g. Dylai Datblygiad Cyflog ar y raddfa uwch yn y mwyafrif o achosion fod ar sail pob dwy flynedd yn unol â gofynion paragraff 14 oni bai bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.
- h. Gallai'r corff perthnasol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw athro ar y brif raddfa yr oedd ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol yn ardderchog, mewn perthynas ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn benodol. Rhaid i'r disgresiwn i ddyfarnu pwynt ychwanegol i athrawon y mae eu perfformiad wedi bod yn ardderchog gael ei amlinellu ym mholisi cyflog y corff perthnasol.
- i. Dylai athrawon sydd newydd eu penodi ac athrawon sydd heb gymhwyso gael eu rhoi ar bwynt graddfa addas o'u hystodau cyflog priodol ar gyfer 2021, fel yr amlinellir ym mholisi cyflog y corff perthnasol.
- j. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad os bydd athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd.

19.3. Rhaid i'r corff perthnasol nodi'n glir ym mholisi cyflog yr ysgol sut y pennir datblygiad cyflog, yn unol â pharagraff 19.2.

Rhan 4 – Lwfansau a thaliadau eraill i athrawon dosbarth

20. Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD)

- 20.1. Caiff y corff perthnasol ddyfarnu taliad CAD i athro dosbarth am ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol parhaus, er mwyn sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu cyflenwi a bod yr athro'n gyfrifol am hyn. Caiff dyfarniad ei wneud tra bydd yr athro'n parhau yn yr un swydd neu'n llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad swydd, yn unol â pharagraff 3 a pharagraffau 20.2 a 20.3, ac yn ddarostyngedig iddynt. Ni chaiff athrawon heb gymhwyso ddyfarniad CADau.
- 20.2. Ar ôl penderfynu dyfarnu CAD, rhaid i'r corff perthnasol bennu a fydd yn dyfarnu CAD cyntaf (CAD1) neu ail CAD (CAD2), a'i werth, yn unol â'i bolisi cyflog, ar yr amod:
- a) na chaiff gwerth blynyddol CAD1 fod yn llai na £ 8,437 nac yn fwy na £ 14,276;
 - b) na chaiff gwerth blynyddol CAD2 fod yn llai na £ 2,924 nac yn fwy na £ 7,140.
- 20.3 Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu trydydd CAD (CAD3) tymor penodol i athro dosbarth ar gyfer prosiectau gwella ysgol â therfyn amser clir, neu gyfrifoldebau allanol untro. Ni chaiff gwerth blynyddol CAD3 fod yn llai na £ 581 nac yn fwy na £ 2,883. Dylid sefydlu hyd y tymor penodol o'r dechrau a dylid gwneud taliad bob mis dros gyfnod y tymor penodol. Er na all athro feddu ar CAD1 a CAD2 ar yr un pryd, gall athro sydd â CAD1 neu CAD2 hefyd feddu ar CAD3 ar yr un pryd.
- 20.4 Ac eithrio is-baragraffau (c) a (d), nad oes rhaid iddynt fod yn gymwys i ddyfarnu CAD3, cyn dyfarnu unrhyw CAD, rhaid i'r corff perthnasol fod yn fodlon bod dyletswyddau'r athro yn cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad yw'n ofynnol gan bob athro dosbarth a'i fod:
- a) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;
 - b) yn mynnu bod yr athro yn arfer barn a sgiliau proffesiynol;
 - c) yn mynnu bod yr athro yn arwain, yn rheoli ac yn datblygu pwnc neu faes cwricwlwm; neu'n arwain ac yn rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;
 - d) yn effeithio ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw'r dosbarthiadau neu'r grwpiau o ddisgyblion a neilltuwyd i'r athro; ac

e) yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arfer addysgu staff eraill.

20.5. Yn ogystal, cyn dyfarnu CAD1, rhaid i'r corff perthnasol fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb ychwanegol parhaus y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 20.1 yn cynnwys cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl.

21. Lwfansau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

21.1. Mae lwfans ADY heb fod yn llai na £ 2,310a heb fod yn fwy na £ 4,558 y flwyddyn yn daladwy i athro dosbarth yn unol â'r paragraff hwn.

21.2. Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu lwfans ADY i athro dosbarth:

- a) mewn unrhyw swydd ADY sy'n gofyn am gymhwyster ADY gorfodol⁽⁸⁾ ac sy'n cynnwys addysgu disgyblion sydd ag ADY;
- b) mewn ysgol arbennig;
- c) sy'n addysgu disgyblion mewn un dosbarth neu uned arbennig ddynodedig neu fwy mewn ysgol neu, yn achos athro digyswllt, mewn uned neu wasanaeth awdurdod lleol;
- d) mewn unrhyw leoliad nad yw'n ddynodedig (gan gynnwys unrhyw uned cyfeirio disgyblion) sy'n cyfateb i ddosbarth neu uned arbennig ddynodedig, lle bydd y swydd:
 - i. yn cynnwys elfen sylweddol o weithio'n uniongyrchol gyda phlant ag ADY;
 - ii. yn ei gwneud yn ofynnol bod athro'n arfer barn a sgiliau proffesiynol wrth addysgu plant ag ADY; ac
 - iii. yn cynnwys mwy o ymwneud ag addysgu plant ag ADY nag sy'n ofynnol fel arfer i athrawon drwy'r ysgol gyfan neu uned o fewn yr ysgol neu, yn achos athro digyswllt, yr uned neu'r gwasanaeth.

21.3. Pan delir lwfans ADY, rhaid i'r corff perthnasol bennu gwerth y lwfans ar y pryd, gan ystyried strwythur darpariaeth ADY yr ysgol a'r ffactorau canlynol:

- a) a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd;
- b) cymwysterau neu arbenigedd yr athro sy'n berthnasol i'r swydd; a
- c) gofynion cymharol y swydd.

⁸ Yn unol â Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817).

21.4. Yn ei bolisi cyflog, rhaid i'r corff perthnasol nodi'r trefniadau ar gyfer gwobrwyo athrawon dosbarth y mae ganddynt gyfrifoldebau ADY.

22. Lwfans sy'n daladwy i athrawon heb gymhwyso

22.1. Caiff y corff perthnasol benderfynu talu'r cyfryw lwfans ychwanegol ag y bydd yn ei ystyried yn briodol i'w dalu i athro heb gymhwyso lle y bydd yn ystyried, yng nghydestun ei strwythur staffio a'i bolisi cyflog, bod yr athro:

- a) wedi cymryd cyfrifoldeb ychwanegol parhaus sydd:
 - i. yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu; ac
 - ii. yn mynnu bod yr athro yn arfer barn a sgiliau proffesiynol; neu
- b) yn meddu ar gymwysterau neu brofiad sy'n dod â gwerth ychwanegol i'r rôl yr ymgwymerir â hi.

23. Lwfans dros dro

23.1. Yn ddarostyngedig i baragraff 23.6, pan fydd athro yn cael ac yn cyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, ond nad yw wedi cael ei benodi'n bennaeth, yn ddirprwy bennaeth nac yn bennaeth cynorthwyol dros dro, rhaid i'r corff perthnasol bennu, cyn pen cyfnod o bedair wythnos a fydd yn cychwyn ar y diwrnod y caiff dyletswyddau o'r fath eu rhoi a'u cyflawni gyntaf, a oes rhaid talu lwfans ("lwfans dros dro") ai peidio yn unol â'r darpariaethau canlynol.

23.2. Os bydd y corff perthnasol yn penderfynu, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 23.1, na thelir lwfans dros dro i'r athro, ond bod yr athro'n parhau i gael a chyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol ac yn eu cyflawni (ac nad yw wedi cael ei benodi'n bennaeth, yn ddirprwy bennaeth nac yn bennaeth cynorthwyol dros dro), caiff y corff perthnasol wneud penderfyniad pellach, ar unrhyw adeg ar ôl y penderfyniad hwnnw, ynghylch a oes rhaid talu lwfans dros dro ai peidio.

23.3. Os bydd y corff perthnasol yn penderfynu bod yn rhaid talu lwfans dros dro i'r athro, yn ddarostyngedig i baragraff 23.4, rhaid i'r swm gyfateb i'r cyfryw swm ag sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr athro'n cael tâl sy'n gyfwerth â'r cyflog a ystyrir yn briodol gan y corff perthnasol.

- 23.4. Pan fydd athro wedi cael ac yn cyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, y mae ystod cyflog (yn ôl y digwydd) wedi cael ei phennu mewn perthynas â hwy, a thelir lwfans dros dro o dan y paragraff hwn, ni ddylai cyfanswm cydnabyddiaeth yr athro fod islaw isafswm y raddfa gyflog berthnasol cyhyd ag y caiff y lwfans dros dro ei dalu.
- 23.5. Gellir talu lwfans dros dro i'r athro, yn weithredol o'r cyfryw ddiwrnod neu ar ôl y cyfryw ddiwrnod ag y bydd dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, fel y'u pennir gan y corff perthnasol, yn cael eu rhoi a'u cyflawni am y tro cyntaf.
- 23.6. Pan delir lwfans i athro o dan y paragraff hwn, yna cyhyd ag y bydd y lwfans hwnnw yn cael ei dalu, mae Rhan 7 yn gymwys fel petai'r athro wedi cael ei benodi i'r swydd honno'n barhaol.

24. Taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad

24.1. Pan fydd:

- a) athro wedi'i secondio dros dro i swydd pennaeth mewn ysgol sy'n peri pryder, ac nid honno yw lle gwaith arferol yr athro; a
- b) mae corff perthnasol yr ysgol honno yn ystyried bod yr athro yn haeddu cael taliadau ychwanegol er mwyn adlewyrchu ansawdd cyson uchel ei berfformiad drwy gydol y secondiad,

caiff y corff perthnasol dalu cyfandaliad i'r athro yn unol â hynny. Yn ddarostyngedig i baragraff 10.4, ni chaiff cyfanswm gwerth y taliad ychwanegol ynghyd ag unrhyw gyflog blynyddol a thaliadau eraill a delir i'r athro yn ystod y secondiad fod yn fwy na 25% uwchlaw uchafswm grŵp y pennaeth ar gyfer yr ysgol y mae'r athro wedi'i secondio iddi.

25. Dyletswyddau preswyl

- 25.1. Rhaid i unrhyw daliad i athrawon am ddyletswyddau preswyl gael ei bennu gan y corff perthnasol.

26. Taliadau ychwanegol

- 26.1. Gall y corff perthnasol wneud y cyfryw daliadau ag y gwêl yn dda i athro, ac eithrio pennaeth, mewn perthynas â'r canlynol:
- a) datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei gyflawni y tu allan i'r diwrnod ysgol;
 - b) gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon fel rhan o weithgarwch arferol yr ysgol;
 - c) cyfranogi mewn gweithgarwch dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunwyd arno rhwng yr athro a'r pennaeth.
 - d) cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol oherwydd, neu mewn perthynas â, darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chodi safonau addysgol i un neu fwy o ysgolion ychwanegol.

27. Cymhellion a buddiannau recriwtio a chadw

- 27.1. Yn ddarostyngedig i baragraff 27.2, caiff y corff perthnasol neu'r awdurdod, os mai'r awdurdod yw'r cyflogwr yn achos athro digyswllt, wneud y cyfryw daliadau neu roi'r cyfryw gymorth ariannol, cefnogaeth neu fuddiannau eraill i athro ag y cred eu bod yn angenrheidiol fel cymhelliad i recriwtio athrawon newydd a chadw athrawon presennol yn eu swydd. Gallai cynllun blaenswm cyflog ar gyfer blaendal rhent fod yn un o nifer o adnoddau y gall ysgolion fod am ystyried eu defnyddio er mwyn cefnogi recriwtio neu gadw.
- 27.2. Pan fydd y corff perthnasol neu'r awdurdod, os mai'r awdurdod yw'r cyflogwr yn achos athro digyswllt, yn gwneud un neu fwy o daliadau o'r fath, neu'n rhoi cymorth ariannol, cefnogaeth neu fuddiannau o'r fath mewn un achos neu fwy, rhaid i'r corff perthnasol neu'r awdurdod gynnal adolygiad ffurfiol rheolaidd o bob dyfarniad o'r fath. Dylai'r corff perthnasol neu'r awdurdod nodi'n glir o'r cychwyn hyd disgwylidig unrhyw gymhellion a buddiannau o'r fath, a dyddiad yr adolygiad sy'n dynodi pryd y gellir eu dileu.
- 27.3. Ni cheir dyfarnu taliadau i bennaethiaid, dirprwy bennaethiaid na phenaethiaid cynorthwyol o dan baragraffau 27.1 i 27.2 ac eithrio ad-dalu costau tai neu adleoli yr aethpwyd iddynt yn rhesymol. Rhaid i bob ystyriaeth recriwtio a chadw arall mewn perthynas â phennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol – gan gynnwys buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol – gael ei hystyried wrth bennu'r raddfa gyflog. Pan fydd corff perthnasol yn talu cymhelliad neu fudd recriwtio neu gadw i bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol o dan Ddogfen flaenorol, yn amodol ar adolygiad, gall barhau i wneud y taliad hwnnw ar ei werth presennol nes y caiff y raddfa gyflog berthnasol ei phennu o dan y Ddogfen hon.

28. Trefniadau aberthu cyflog

- 28.1. At ddibenion y paragraff hwn, ystyr y term “trefniant aberthu cyflog” yw unrhyw drefniant sy'n golygu bod yr athro yn ildio'r hawl i gael rhan o'i gyflog gros, yn gyfnewid am gytundeb y cyflogwr i ddarparu budd o fath arall yn unol ag unrhyw un o'r cynlluniau canlynol:
- a) taleb gofal plant neu gynllun budd-dal gofal plant arall;
 - b) cynllun beic neu offer diogelwch beiciwr; neu
 - c) dim ond hyd at 6 Ebrill 2018 y bydd darpariaethau'r paragraff hwn yn talu am gynllun ffôn symudol a luniwyd ar neu cyn 5 Ebrill 2017 (ac eithrio trefniant aberthu cyflog ar gyfer cynllun ffôn symudol) - gweler isod; a
 - d) bod y budd hwnnw o fath arall wedi'i eithrio o dreth incwm⁽⁹⁾.
- 28.2. Pan fo'r cyflogwr yn gweithredu trefniant aberthu cyflog, caiff yr athro gymryd rhan mewn unrhyw drefniant o'r fath a gellir lleihau cyflog gros yr athro yn unol â hynny tra bydd yn parhau i gymryd rhan.
- 28.3. Nid yw cymryd rhan mewn unrhyw drefniant aberthu cyflog yn cael unrhyw effaith ar y penderfyniad ynghylch unrhyw swm a ddiogelir y gall fod gan yr athro hawl iddo o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Ddogfen hon.

⁹ Mae Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (2003 p.1) yn darparu nad oes unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â threth incwm yn codi o ran darparu unrhyw rai o'r buddion hyn o fath arall i gyflogai lle y bodlonir yr amodau penodedig.

Rhan 5 –Diogelu cyffredinol

29. Amgylchiadau cyffredinol lle mae diogelu yn gymwys

29.1. Mae paragraffau 30 i 36 yn gymwys i athro o dan yr amgylchiadau canlynol:

- a) mae'r athro yn colli swydd o ganlyniad i'r canlynol:
 - i. terfynu ysgol, newid penodedig i ysgol neu ad-drefnu ysgol; neu
 - ii. cau neu ad-drefnu unrhyw sefydliad neu wasanaeth addysgol arall, wedyn yn dechrau swydd newydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2006 ac yn cael ei gyflogi gan yr un awdurdod neu mewn ysgol a gynhelir gan yr un awdurdod, ac yn achos athro o fewn is-baragraff (ii), mae'r swydd newydd mewn ysgol wahanol;
- b) mae'r corff perthnasol yn penderfynu, p'un ai o ganlyniad i newid i'w bolisi cyflog neu i strwythur staffio'r ysgol, nad yw'r dyletswyddau y dyfarnwyd CAD1 neu CAD2 neu lwfans athro heb gymhwyso ar eu cyfer yn cynnwys y cyfrifoldeb y dyfarnwyd y lwfans perthnasol ar ei gyfer mwyach neu y byddant yn cynnwys cyfrifoldeb gwahanol, neu y bydd y cyfrifoldeb (p'un a yw wedi newid ai peidio) yn haeddu lwfans o werth blynyddol is; neu,
- c) mae'r corff perthnasol yn penderfynu:
 - i. lleihau nifer yr aelodau o'r grŵp arweinyddiaeth neu nifer yr athrawon y telir yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol iddynt; neu
 - ii. gostwng ystod cyflog sy'n gymwys i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu athro y telir yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol iddo.

29.2. At ddibenion paragraff 29.1, ystyr "newid rhagnodedig" yw newid sy'n cael ei ragnodi gan Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (newidiadau a reoleiddir yn Atodlen 2 o'r Deddf)¹⁰.

¹⁰ 2013 (anaw.1)

30. Hawl i gael swm a ddiogelir

30.1. Telir i athro sy'n dod o dan baragraff 29.1(a):

- a) y gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng y cyflog cyn diogelu sy'n daladwy i'r athro yn union cyn i'r amgylchiadau ym mharagraff 29.1(a) ddod yn weithredol a'r cyflog sy'n daladwy i'r athro yn y swydd newydd;
- b) y gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng unrhyw CAD1 neu CAD2 sy'n daladwy i'r athro yn union cyn i'r amgylchiadau ym mharagraff 29.1(a) ddod yn weithredol a thaliad CAD yr athro yn y swydd newydd (os o gwbl);
- c) y gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng unrhyw lwfans ADY sy'n daladwy i'r athro yn union cyn i'r amgylchiadau ym mharagraff 29.1(a) ddod yn weithredol a lwfans ADY yr athro yn y swydd newydd (os o gwbl); a
- d) y gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng unrhyw lwfans sy'n daladwy i'r athro o dan baragraff 22.1 yn union cyn i'r amgylchiadau ym mharagraff 29.1(a) ddod yn weithredol a'r lwfans sy'n daladwy i'r athro yn y swydd newydd (os o gwbl).

30.2 Telir i athro sy'n dod o dan baragraff 29.1(b) y gwahaniaeth rhwng lwfans yr oedd ganddo hawl iddo cyn i'r digwyddiad neu'r digwyddiadau ym mharagraffau 29.1(b) ddigwydd ac unrhyw lwfans is o fath tebyg y bydd yr athro yn ei dderbyn yng ngoleuni'r digwyddiad neu'r digwyddiadau. Ni chaiff CAD1 na CAD2 a ddyfernir i athrawon a gyflogir o dan gytundeb tymor penodol neu tra byddant yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad swydd ei ddiogelu ar ôl i'r cytundeb tymor penodol ddod i ben neu ar ôl i'r swydd beidio â chael ei llenwi.

30.3 Telir i athro y mae ei gyflog yn cael ei ostwng o ganlyniad i amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(c) y gwahaniaeth rhwng y cyflog yr oedd gan yr athro hawl iddo yn union cyn i'r amgylchiad dywededig ddod yn weithredol a gwerth cyflog newydd yr athro, ynghyd ag unrhyw CAD1, CAD2 neu lwfans ADY yn achos athro y mae paragraff 29.1(c)(i) yn gymwys iddo.

30.4 Gelwir pob taliad a wneir yn unol â pharagraffau 30.1(a), (b), (c), (ch), 30.2 neu 30.3 yn swm wedi'i ddiogelu a bydd gan athro sy'n dod o dan fwy nag un o'r paragraffau neu is-baragraffau hynny yr hawl i gael swm a ddiogelir o dan bob paragraff.

31. Hysbysiad o ddiogelu

31.1. Pan fo swm a ddiogelir yn daladwy o ganlyniad i amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(b) neu 29.1(c), rhaid i'r corff perthnasol hysbysu'r athro'n ysgrifenedig, o fewn mis i wneud y penderfyniad i'r perwyl bod y swm a ddiogelir yn daladwy ("y penderfyniad") neu (os yw'n gynharach) wrth roi gwybod yn unol â pharagraff 3.3, am:

- a) y rheswm dros y penderfyniad;
- b) y dyddiad y bydd y penderfyniad yn weithredol (os yw'n hysbys);
- c) gwerth cyflog yr athro cyn diogelu;
- d) gwerth unrhyw lwfansau yr oedd gan yr athro hawl iddynt cyn i'r amgylchiadau dywededig fod yn weithredol;
- e) y swm a ddiogelir neu (os nad yw'n hysbys ar y pryd) y cyfryw wybodaeth ag y mae'n rhesymol bosibl ei darparu er mwyn pennu uchafswm y swm a ddiogelir;
- f) y dyddiad neu, os yw'n gymwys, y dyddiad diweddaraf y daw'r cyfnod diogelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 32) i ben, neu'r amgylchiadau a fydd yn peri rhoi terfyn ar dalu'r swm a ddiogelir;
- g) ble y mae modd gweld copi o strwythur staffio a pholisi cyflog yr ysgol.

32. Y cyfnod diogelu

32.1. Oni ddarperir fel arall yn y ddogfen hon, rhaid i'r corff perthnasol dalu'r swm a ddiogelir:

- a) hyd at y dyddiad pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben, sef trydydd pen-blwydd y dyddiad y dechreuodd yr athro sy'n ddarostyngedig i baragraff 29.1(a) weithio yn y swydd newydd y cyfeirir ati ynddo ac o dan bob amgylchiad arall drydydd pen-blwydd y dyddiad perthnasol fel y'i diffinnir ym mharagraff 33.1;
- b) pan delir swm a ddiogelir mewn perthynas â lwfans a ddyfarnwyd i athro neu swydd a ddelir gan athro am gyfnod penodol neu athro a gyflogir o dan gytundeb tymor penodol, hyd at y dyddiad y daw'r cytundeb tymor penodol hwnnw i ben;

- c) pan ddyfernir swm a ddiogelir mewn perthynas â thaliad neu lwfans a ddyfernir i athro tra bydd yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd, y dyddiad y byddai'r hawl i'r lwfans wedi dod i ben oni bai am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr hawl i gael y swm a ddiogelir;
- d) yn achos athro y telir swm a ddiogelir iddo o dan baragraff 30.1, mae'r athro yn cael ei roi ar gyflog ar raddfa gyflog wahanol (ac eithrio athro dosbarth sy'n cael ei roi am y tro cyntaf ar y raddfa gyflog uwch neu athro y mae'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(c) yn gymwys iddo wedyn);
- e) yn achos athro y telir swm a ddiogelir iddo o dan baragraff 30.1, dyfernir cyflog uwch i'r athro, y mae ei werth yn fwy na gwerth cyfunol y cyflog cyn diogelu ac unrhyw un neu fwy o'r symiau a ddiogelir sy'n daladwy felly;
- f) yn achos athro y telir swm a ddiogelir iddo o dan baragraff 30.2;
 - i. dyfernir i'r athro CAD1 neu CAD2 neu (yn ôl y digwydd) lwfans athro heb gymhwyso sy'n gyfwerth â chyfanswm y swm dywededig a ddiogelir a'r lwfans gostyngol (os o gwbl), neu'n fwy na'r swm hwnnw, y telir y swm dywededig a ddiogelir o'r herwydd; neu
 - ii. dyfernir cyflog i'r athro sydd, o'i gyfuno â gwerth unrhyw daliad newydd, yn gyfwerth â chyfanswm y cyflog cyn diogelu a'r swm a ddiogelir, neu'n fwy na'r gwerth hwnnw;
- g) yn achos athro y telir swm a ddiogelir iddo o ganlyniad i amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(c) (i), dyfernir i'r athro gyflog uwch neu CAD neu lwfans ADY, fel y bydd gwerth cyfunol cyflog yr athro, CAD a/neu lwfans ADY o ganlyniad i hynny yn gyfwerth â chyflog cyn diogelu'r athro neu'n fwy na'r swm hwnnw;
- h) yn achos athro y telir swm a ddiogelir o ganlyniad i amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(c) (ii), dyfernir i'r athro gyflog sy'n gyfwerth â chyflog cyn diogelu'r athro neu'n fwy na'r swm hwnnw.
- i) yn achos athro sy'n cael swm a ddiogelir mewn perthynas â lwfans athro heb gymhwyso, mae'r athro yn peidio â bod yn athro heb gymhwyso; neu
- j) mae'r athro yn peidio â bod yn athro dosbarth neu y mae ei gyflogaeth yn dod i ben ac eithrio o dan yr amgylchiadau y mae paragraff 29.1(a) yn gymwys iddynt;

pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

33. Cyfrifo dyddiadau perthnasol

33.1. At ddibenion cyfrifo trydydd pen-blwydd y dyddiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff 32.1(a), mae'r dyddiad perthnasol fel a ganlyn:

- a) mewn perthynas â phenderfyniad a wneir rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, y 1 Ionawr dilynol;
- b) mewn perthynas â phenderfyniad a wneir rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth, y 1 Ebrill dilynol;
- c) mewn perthynas â phenderfyniad a wneir rhwng 1 Ebrill a 31 Awst, y 1 Medi dilynol.

34. Atal y swm a ddiogelir a'i leihau'n rhannol

- 34.1. Os bydd swm a ddiogelir yn daladwy mewn perthynas â cholli lwfans neu leihad mewn lwfans a bod gan yr athro wedyn hawl i gael lwfans neu lwfans uwch o fath tebyg yn ystod y cyfnod diogelu, rhaid i'r swm dywededig a ddiogelir gael ei leihau yn ôl swm y lwfans, neu'r cynnydd iddo, yn ôl y digwydd, cyhyd ag y bydd gan yr athro hawl i'r lwfans newydd neu'r lwfans uwch.
- 34.2. Rhaid i swm a ddiogelir sy'n daladwy o dan baragraff 30.1(a) gael ei leihau yn ôl gwerth unrhyw CAD neu lwfans ADY a ddyfernir i'r athro cyhyd ag y bydd gan yr athro hawl i gael y CAD neu lwfans ADY.
- 34.3. Rhaid peidio â thalu swm a ddiogelir y gellir ei briodoli i'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(c) tra bydd yr athro'n llenwi swydd fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu'n cyflawni dyletswyddau athro sy'n cael ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn absenoldeb yr athro hwnnw, cyhyd ac y bydd yr athro'n llenwi'r swydd neu'n cyflawni'r dyletswyddau dan sylw, oni fyddai wedi peidio fel arall o dan ddarpariaethau paragraff 32.1.

35. Dyletswyddau ychwanegol

- 35.1. Os bydd cyfanswm yr holl symiau a ddiogelir sy'n daladwy i athro o bryd i'w gilydd yn werth mwy na £500, rhaid i'r corff perthnasol adolygu'r dyletswyddau a roddwyd i'r athro a dyrannu dyletswyddau ychwanegol i'r athro y mae'n rhesymol iddo ystyried eu bod yn briodol ac yn gymesur â'r swm a ddiogelir, cyhyd ag y parheir i dalu symiau a ddiogelir i'r athro sy'n werth mwy na £500 gyda'i gilydd.
- 35.2. Ni fydd yr athro yn cael unrhyw symiau a ddiogelir os bydd yr athro yn gwrthod cyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath yn afresymol, ar yr amod bod yr athro'n cael gwybod am benderfyniad y corff perthnasol i beidio â thalu'r swm a ddiogelir o leiaf fis cyn iddo ddod yn weithredol.

36. Amrywiol

- 36.1. P'un a oedd yr athro'n athro llawn amser neu'n athro mewn cyflogaeth ran amser reolaidd cyn colli swydd, os caiff yr athro ei gyflogi wedyn fel y nodir ym mharagraff 29.1(a) fel athro mewn cyflogaeth ran amser reolaidd, rhaid talu cyfran i'r athro o'r swm a ddiogelir y gellir ei briodoli i golli swydd y byddai wedi bod gan yr athro hawl i'w gael pe bai wedi cael ei gyflogi'n athro llawn amser y mae'r gyflogaeth ran amser yn ei golygu i gyflogaeth llawn amser.
- 36.2. Bydd athrawon a gyflogid gynt yn athrawon sgiliau uwch neu'n athrawon rhagorol ac yr oedd eu tâl yn cael ei ddiogelu o dan Ddogfennau 2012 neu 2013 o ganlyniad i hynny yn parhau i gael y gyfran honno o'u tâl wedi'i diogelu yn unol â'r Dogfennau hynny ac ni fydd paragraffau 29 i 34 yn gymwys i'r gyfran honno o'u tâl.
- 36.3. Bydd gan athro y telir swm a ddiogelir iddo o ganlyniad i'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(a), er gwaethaf yr hawl i gael y swm a ddiogelir wedi'i dalu iddo, hawl o hyd i gael y canlynol:
- unrhyw symiau a ddiogelir y byddai wedi bod gan yr athro hawl iddynt oni bai bod yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1(a) wedi digwydd;
 - unrhyw gymhelliad neu fudd recriwtio neu gadw yr oedd gan yr athro'r hawl i'w gael o dan baragraff 26.

37. Diogelu cyffredinol - athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005

37.1. Yn ddarostyngedig i baragraffau 37.7 i 37.10:

37.2. Lle, o ganlyniad i:

- gau neu ad-drefnu sefydliad addysgol; neu
- gyfarwyddyd ynglŷn â chwrs hyfforddiant athrawon a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 3(2) o Reoliadau Addysg Bellach 1975⁽¹¹⁾ dan reoliad 15 neu 16 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach) 1981⁽¹²⁾ neu o dan reoliad 12 neu 13 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch 1989⁽¹³⁾.

¹¹ 1975/1054; a ddiddymwyd gan O.S.1989/351.

¹² O.S. 1981/1086; cafodd rheoliadau 15 a 16 eu diddymu gan O.S. 1989/351..

¹³ O.S. 1989/351; diddymwyd rheoliadau 12 a 13 mewn perthynas â Cymru gan O.S. 2017/965 (W.248).

- c) pan fydd athro (gan gynnwys athro mewn addysg bellach neu addysg uwch) yn colli swydd, ac yr oedd yn cael ei gyflogi'n llawn amser fel athro ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005 er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd (boed hynny mewn ysgol ai peidio) mewn swydd lle mae'r tâl yn cael ei dalu gan yr un awdurdod ag o'r blaen, rhaid tybio bod yr athro, at bob diben cyflog, yn parhau i fod yn y swydd a oedd ganddo, a'i fod yn gallu hawlio unrhyw lwfans i athrawon heb gymhwyso (o dan baragraff 22.1) yr oedd ganddo'r hawl i'w gael, cyn i'r amgylchiadau ddigwydd.

37.3. Pan fydd athro o'r fath, mewn amgylchiadau ac eithrio'r rhai y soniwyd amdanynt ym mharagraff 37.2, yn colli swydd a'i fod wedi cael ei gyflogi'n llawn amser fel athro ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005 er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd mewn swydd (boed hynny mewn ysgol ai peidio) lle mae'r tâl yn cael ei dalu gan yr un awdurdod ag o'r blaen, gellir tybio bod yr athro, yn unol â disgresiwn yr awdurdod, at bob diben cyflog, yn parhau i ddal y swydd a ddaliwyd, a bod ganddo'r hawl i gael unrhyw lwfans i athrawon heb gymhwyso yr oedd ganddo'r hawl i'w gael yn union cyn i'r amgylchiadau ddigwydd; ac ni chaiff yr awdurdod wrthod arfer ei ddisgresiwn yn afresymol mewn perthynas â'r mater hwn o blaid yr athro.

37.4. Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 37.2 neu 37.3, pan fydd athro llawn amser o'r fath neu athro o'r fath mewn cyflogaeth ran amser reolaidd yn colli swydd o dan amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 37.2, ac yn cael ei gyflogi gyda hynny fel y nodwyd yn y ddarpariaeth honno ond fel athro mewn cyflogaeth ran amser reolaidd, mae'r athro (yn unol, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 37.3, â'r un disgresiwn i'w weithredu mewn modd tebyg) yn gallu hawlio'r gyfran honno o'r cyflog a'r lwfans i athrawon heb gymhwyso yr oedd ganddo'r hawl i'w gael yn union cyn y newid perthnasol mewn amgylchiadau y mae'r gyflogaeth ran amser yn ei golygu i gyflogaeth lawn amser.

37.5. Mae gan athro y diogelir ei dâl o dan y paragraff hwn yr hawl i gael lwfans dros dro (paragraff 23), ond dim ond pan fydd hynny'n briodol i amgylchiadau cyflogaeth bresennol yr athro.

37.6. Yn ddarostyngedig i baragraff 37.7, ystyr y cyflog i'w ddiogelu yn unol â pharagraff 37.1 i 37.4 yw:

- a) unrhyw gyflog neu lwfans, ac eithrio'r rhai a ddyfarnwyd ar gyfer tymor penodol y cytunwyd arno, yr oedd yr athro yn ei gael yn union cyn i'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 37.2 i 37.4 godi; ac
- b) unrhyw swm a ddiogelir y mae gan yr athro'r hawl i'w gael o dan baragraff 30 neu 36 ond dim ond i'r graddau y mae'r paragraff cymwys yn darparu ar gyfer parhau i dalu'r swm hwnnw.

37.7. Pan fydd aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, neu gyn-athro sgiliau uwch, yn union cyn i amgylchiadau y sonnir amdanynt ym mharagraffau 37.2 neu 37.3 godi, yn cael ei dalu ar ystod cyflog y grŵp arweinyddiaeth yn unol â pharagraff 4 o'r Ddogfen hon neu fel athro sgiliau uwch yn unol â pharagraff 26 o Ddogfen 2012, rhaid i'r aelod neu'r athro hwnnw barhau i gael ei dalu ar y pwynt hwnnw (yn unol â'r un disgrisiwn yn yr amgylchiadau y sonnir amdanynt yn is-baragraff 37.3) fel pe na bai'r amgylchiadau wedi digwydd.

37.8. Os bydd tâl a ddiogelir yr athro o dan y paragraff hwn £500 neu fwy yn uwch na'r tâl y byddai gan yr athro'r hawl i'w gael fel arall o dan y Ddogfen hon, rhaid i'r corff perthnasol adolygu'r dyletswyddau a roddwyd i'r athro a, cyhyd ag y bydd hynny'n parhau, dyrannu dyletswyddau ychwanegol y mae'n rhesymol iddo ystyried eu bod yn briodol ac yn gymesur â'r tâl a ddiogelir.

37.9. Ni fydd paragraffau 37.2 i 37.4 yn gymwys neu, yn ôl y digwydd, byddant yn peidio â bod yn gymwys, yn achos athro:

- a) sydd ar unrhyw adeg yn cael cynnig swydd arall mewn sefydliad addysgol a gynhelir gan yr awdurdod sy'n talu cyflog yr athro, ond yn gwrthod derbyn y cynnig yn afresymol;
- b) os yw'r tâl sy'n daladwy yn rhinwedd paragraffau eraill y Ddogfen hon yn gyfwerth â'r tâl sy'n daladwy yn unol â'r paragraff hwn neu'n fwy nag ef;
- c) sy'n cael ei roi ar raddfa neu ystod cyflog wahanol, ond nid yw hyn yn berthnasol i athro dosbarth pan gaiff ei roi gyntaf ar y raddfa gyflog a nodir ym mharagraff 14 neu i athro y mae penderfyniad a wnaed gan gorff perthnasol o dan baragraff 29.1(c) yn effeithio arno; neu
- d) y mae ei gyflogaeth yn dod i ben ac eithrio yn yr amgylchiadau sy'n berthnasol i'r paragraff hwn.

37.10. At ddibenion y paragraff hwn:

- a) ystyr "sefydliad addysgol" yw sefydliad yng Nghymru sydd:
 - i. yn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch a gynhelir neu a gynorthwyir gan awdurdod;
 - ii. yn ysgol;
 - iii. yn ganolfan athrawon; neu
 - iv. yn sefydliad (ac eithrio ysgol), lle y darperir addysg gynradd neu uwchradd gan awdurdod;

- b) ystyr “swydd grŵp arweinyddiaeth” yw swydd pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol mewn ysgol;
- c) ystyr “tâl” yw cyflog ac unrhyw lwfansau ond nid yw’n cynnwys unrhyw swm sy’n cael ei dalu o dan baragraffau 25, 26 a 27;
- d) ystyr “cyflog” yw:
 - i. yn achos athro ysgol, y cyflog sy’n daladwy yn unol â pharagraffau 4 i 11, 13, 14, 16 a 17 gan gynnwys unrhyw lwfans sy’n daladwy o dan baragraff 21; ac
 - ii. yn achos athro mewn addysg bellach neu addysg uwch, cyflog sylfaenol yr athro ac eithrio pob lwfans;
- e) mae ysgol yn cael ei had-drefnu lle yr oedd neu mae’n cael ei had-drefnu yn unol â chynigion a wnaed yn unol ag adran 28 neu 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998⁽¹⁴⁾ eu gynigion y cyfeirir atynt yn rheoliad 14 o Reoliadau Addysg (Trosglwyddo i Fframwaith Newydd) (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) 1999⁽¹⁵⁾, o dan adrannau 41 i 45 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013⁽¹⁶⁾; a
- f) mae’n rhaid diystyru unrhyw drosglwyddo cyfrifoldeb dros gynnal a chadw sefydliad.

¹⁴ 1998 (c.31).

¹⁵ O.S. 1999/704

¹⁶ 2013 (anaw. 1).

Rhan 6 – Atodol

38. Athrawon digyswllt

- 38.1. Rhaid pennu tâl athro digyswllt yn unol â pha ddarpariaethau bynnag o'r Ddogfen hon y mae'r corff perthnasol o'r farn eu bod yn briodol yn amgylchiadau'r achos, gan ystyried ei bolisi cyflog a swydd benodol yr athro o fewn y strwythur staffio.
- 38.2. Pan fydd tâl athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion, yn unol â pharagraff 38.1, yn cael ei bennu yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i bennaeth, mae paragraffau 43-46 yn gymwys, ac nid yw paragraffau 47.1 i 49.16 yn gymwys.
- 38.3. Pan fydd tâl athro digyswllt (ac eithrio athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion), yn unol â pharagraff 38.1, yn cael ei bennu yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, nid yw paragraffau 47.1 i 49.16 a 50.2 i 50.12 yn gymwys a rhaid i'r athro a'r corff perthnasol gytuno ar amodau cyflogaeth yr athro mewn perthynas â dyletswyddau proffesiynol ac oriau gwaith.

39. Athrawon rhan amser - dehongli

39.1. Yn y paragraff hwn:

- a) ystyr "egwyddor pro rata" yw'r gyfran honno o gyfanswm y tâl sy'n cyfateb â nifer yr oriau y mae'r athro'n cael ei gyflogi yn y swydd honno yn ystod wythnos amserlen addysgu'r ysgol, fel cyfran o gyfanswm yr oriau yn wythnos amserlen addysgu'r ysgol; (ac at y diben hwn, ystyr "cyfanswm y tâl" yw'r tâl a fyddai'n daladwy i'r person hwnnw pe bai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd o dan drefniant llawn amser); ac
- b) ystyr "wythnos amserlen addysgu'r ysgol" yw'r cyfnod o amser crynswth yn amserlen yr ysgol pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu fel arfer.

39.2. Pan fydd yn ofynnol i gorff perthnasol bennu cyflog athro rhan amser yn unol â'r egwyddor pro rata, rhaid iddo wneud hynny nid yn unig mewn perthynas â'r oriau hynny y mae athro rhan amser yn eu gweithio fel arfer o dan y cytundeb cyflogaeth, ond hefyd mewn perthynas ag unrhyw oriau ychwanegol y gallai'r athro gytuno i'w gweithio o bryd i'w gilydd ar gais y pennaeth neu, os yw'r athro rhan amser yn bennaeth, ar gais y corff perthnasol.

40. Pennu tâl athrawon rhan amser

40.1. Rhaid pennu cyflog ac unrhyw lwfansau athro rhan amser, ac eithrio CAD3 yn unol â'r egwyddor pro rata.

41. Athrawon a gyflogir ar fyr rybudd

41.1. Rhaid i athrawon a gyflogir o ddydd i ddydd neu fel arall ar fyr rybudd gael eu talu yn unol â darpariaethau'r Ddogfen hon ar sail ddyddiol, a gyfrifir gan dybio bod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 194 diwrnod (ar gyfer 2021-22 yn unig), a bydd cyfnodau cyflogaeth sy'n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.

41.2. Os yw paragraff 41.1 yn gymwys i athro a'i fod yn cael ei gyflogi gan yr un awdurdod trwy gydol cyfnod o 12 mis yn cychwyn ym mis Awst neu fis Medi, ni chaiff fwy o dâl am y cyfnod hwnnw nag y byddai wedi ei gael pe bai'n athro mewn cyflogaeth reolaidd trwy gydol y cyfnod.

Rhan 7 – Fframwaith Cytundebol i Athrawon

42. Cyflwyniad

42.1. Mae'r adran hon yn nodi'r fframwaith cytundebol y mae pob athro, gan gynnwys penaethiaid, yn gweithredu ynddo. Yn ogystal, mae'n cynnwys cyfrifoldebau lefel uchel i bob athro a phennaeth a'u hawliau statudol.

43. Penaethiaid - prif ofynion

43.1. Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol pennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r canlynol ac yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- a) darpariaethau pob deddfwriaeth gymwys ac unrhyw orchmynion a rheoliadau sy'n weithredol o dan y ddeddfwriaeth gymwys ac yn benodol Deddf Addysg 1996⁽¹⁷⁾ a'r Ddeddf;
- b) offeryn llywodraethu ysgol y pennaeth;
- c) unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisiâu a wneir gan y corff llywodraethu ynghylch materion y mae'n gyfrifol amdanynt, gan yr awdurdod mewn perthynas â materion nad yw'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt neu gan gyflogwyr y pennaeth;
- d) pan fydd yr ysgol yn ysgol wirfoddol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, unrhyw ddogfen ymddiriedaeth sy'n gymwys i'r ysgol;
- e) unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 48 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998⁽¹⁸⁾;
- f) telerau eu penodiad.

44. Dirprwyo

44.1. Ni cheir dirprwyo cyfrifoldebau proffesiynol pennaeth o dan baragraff 45.9 ac eithrio yn unol â pharagraff 47.2.

44.2. Yn ddarostyngedig i baragraff 44.1, gellir dirprwyo cyfrifoldebau pennaeth i ddirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol neu aelod arall o staff mewn modd sy'n gyson â'u hamodau cyflogaeth, gan ystyried natur a graddau eu cyfrifoldebau rheoli, a chan gynnal cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith ac ymrwymïadau eraill i bob athro yn unol â pharagraff 50.4.

¹⁷ 1996 (c.56).

¹⁸ 1998 (c.31).

45. Cyfrifoldebau proffesiynol

45.1. Efallai y bydd yn ofynnol i bennaeth gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan

45.2. Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol.

45.3. Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisiau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol.

Addysgu

45.4. Arwain a rheoli addysgu a dysgu drwy'r ysgol gyfan, gan gynnwys sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bod athro'n cael ei neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion:

- a) yn y cyfnod allweddol cyntaf, ac yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol, ar gyfer pynciau craidd a sylfaen ac addysg grefyddol; ac,
- b) yn y cyfnod rhagarweiniol.

45.5. Addysgu.

Iechyd, diogelwch a disgyblaeth

45.6. Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff.

45.7. Sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.

Rheoli staff ac adnoddau

45.8. Arwain, rheoli a datblygu'r staff, gan gynnwys gwerthuso a rheoli perfformiad.

45.9. Datblygu trefniadau clir i gynghori'r corff perthnasol ar argymhellion ynglŷn â chyflog i athrawon, gan gynnwys p'un a ddylai athro yn yr ysgol a wnaeth gais i gael ei dalu ar y raddfa gyflog uwch gael ei dalu ar y raddfa honno.

45.10. Trefnu a rheoli adnoddau yn yr ysgol.

45.11. Hyrwyddo cydberthnasau gwaith cydgordiol yn yr ysgol.

45.12. Cynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o'r staff.

45.13. Arwain a rheoli'r staff gan ystyried eu lles a'u disgwyliadau dilys mewn ffordd briodol, gan gynnwys y disgwyliad ynghylch cydbwysedd iach rhwng gwaith ac

ymrwymiadau eraill.

Datblygiad proffesiynol

45.14. Hyrwyddo cyfranogiad staff mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

45.15. Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, pherfformiad athrawon eraill a staff cymorth.

45.16. Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

Cyfathrebu

45.17. Ymgynghori a chyfathrebu â'r corff llywodraethu, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.

Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill

45.18. Cydlafurio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol, gan gynnwys cyrff ac asiantaethau allanol perthnasol.

46. Hawliau a roddwyd

46.1. Yn ogystal â darpariaethau paragraff 50, mae'r hawliau canlynol yn gymwys:

Amser penodedig i bennaethiaid

46.2. Mae hawl gan bennaeth i gael cyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau ysgol, gan ystyried ei gyfrifoldebau addysgu, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli ac arwain.

Egwyl ddyddiol

46.3. Mae gan bennaeth yr hawl i egwyl resymol yn ystod pob diwrnod ysgol, ac mae'n rhaid iddo drefnu bod rhywun addas yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel pennaeth yn ystod yr egwyl honno.

Athrawon – cyfrifoldebau proffesiynol

47. Dirprwy bennaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol

47.1. Rhaid i rywun a benodir yn ddirprwy bennaeth neu'n bennaeth cynorthwyol mewn ysgol, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau proffesiynol athro ac eithrio'r pennaeth, gan gynnwys y dyletswyddau penodol hynny sy'n cael eu neilltuo gan y pennaeth gyflawni rôl bwysig dan gyfarwyddyd cyffredinol y pennaeth:

- a) wrth lunio nodau ac amcanion yr ysgol;
- b) wrth bennu'r polisïau er mwyn cyflawni'r rhain;
- c) wrth reoli staff ac adnoddau i'r perwyl hwnnw;
- d) wrth fonitro cynnydd tuag at eu cyflawni;

a cyflawni unrhyw un o ddyletswyddau proffesiynol y pennaeth a ddirprwyir iddo mewn ffordd resymol gan y pennaeth.

47.2. Os bydd y pennaeth yn absennol o'r ysgol rhaid i ddirprwy bennaeth gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol i'r graddau ag sy'n ofynnol gan y pennaeth neu'r corff perthnasol neu, yn achos ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, y corff llywodraethu.

48. Athrawon ar yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol

48.1. Ac eithrio lle y nodir yn wahanol yn y Ddogfen hon, mae gan athrawon ar yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol yr un cyfrifoldebau proffesiynol ac maent yn cael budd o'r un hawliau a roddir â phob athro arall, ac eithrio'r pennaeth. Fodd bynnag, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'w rôl yn modelu ac yn arwain gwelliant mewn sgiliau addysgu yn nisgrifiadau swyddi unigol athrawon o'r fath.

49. Athrawon nad ydynt yn bennaeth

49.1. Efallai y bydd yn ofynnol i athro gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

Addysgu

49.2. Cynllunio ac addysgu gwersi i'r dosbarthiadau y caiff ei neilltuo i'w haddysgu yng nghyd-destun cynlluniau, cwricwlwm a chynlluniau gwaith yr ysgol.

49.3. Asesu, monitro, cofnodi ac adrodd am anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau'r disgyblion a neilltuwyd.

49.4. Cymryd rhan mewn trefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol.

Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan

- 49.5. Cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol mewn ffordd sy'n cynorthwyo gwerthoedd a gweledigaeth yr ysgol.
- 49.6. Gweithio gydag eraill ar ddatblygiad disgyblion a/neu'r cwricwlwm, er mwyn sicrhau canlyniadau cydgysylltiedig.
- 49.7. Yn ddarostyngedig i baragraff 51.7, goruchwylio, ac i'r graddau sy'n ymarferol, addysgu unrhyw ddisgyblion os nad yw'r sawl a nodwyd yn yr amserlen i addysgu'r dosbarth ar gael i wneud hynny.

Iechyd, diogelwch a disgyblaeth

- 49.8. Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion.
- 49.9. Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.

Rheoli staff ac adnoddau

- 49.10. Cyfarwyddo a goruchwylio staff cymorth a neilltuwyd iddynt ac athrawon eraill pan fo hynny'n briodol.
- 49.11. Cyfrannu at recriwtio, dewis, penodi a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth.
- 49.12. Trefnu adnoddau a ddirprwywyd iddynt.

Datblygiad proffesiynol

- 49.13. Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, perfformiad athrawon eraill a staff cymorth.
- 49.14. Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

Cyfathrebu

- 49.15. Cyfathrebu â disgyblion, rhieni a gofalwyr.

Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill

- 49.16. Cydlafurio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol.

50. Oriau gwaith

50.1. Nid ystyrir bod dim yn y Ddogfen hon yn mynd yn groes i Gyfarwyddeb Cyngor 93/104/EC, dyddiedig 23 Tachwedd 1993, ynghylch agweddau penodol ar drefnu oriau gwaith⁽¹⁹⁾.

Diwrnodau gwaith

50.2. Rhaid i athro a gyflogir yn llawn amser fod ar gael i weithio 194 diwrnod, ac o blith y rhain:

- a) rhaid i 189 o ddiwrnodau fod yn ddiwrnodau pan fydd yn ofynnol i'r athro addysgu disgyblion a chyflawni dyletswyddau eraill; a
- b) rhaid i 5 diwrnod fod yn ddiwrnodau pan fydd yn ofynnol i'r athro gyflawni dyletswyddau eraill yn unig; a

rhaid i'r 194 o ddiwrnodau hynny gael eu nodi gan y cyflogwr neu, os bydd y cyflogwr yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, gan y pennaeth.

50.3. Nid yw paragraff 50.2 yn gymwys i athro a gyflogir yn llawn amser yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn addysgu neu gyflawni dyletswyddau eraill mewn perthynas â disgyblion mewn sefydliad preswyl.

Oriau gwaith penodedig

50.4. Nid yw darpariaethau paragraffau 50.2 i 50.12 yn gymwys i'r canlynol:

- a) penaethiaid, dirprwy bennaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol neu athrawon sy'n cael lwfans dros dro am gyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn unol â pharagraff 23;
- b) athrawon digyswllt sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion y pennir eu tâl yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i bennaethiaid yn unol â pharagraff 38;
- c) athrawon digyswllt (ac eithrio'r rhai sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion) y pennir eu tâl yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, yn unol â pharagraff 38.

50.5 Rhaid i athro a gyflogir yn llawn amser fod ar gael i gyflawni dyletswyddau o'r fath ar y cyfryw adegau ac yn y cyfryw leoedd ag a nodir gan y pennaeth (neu, os nad yw'r athro wedi cael ei neilltuo i ysgol benodol, gan y cyflogwr neu gan bennaeth unrhyw ysgol lle y gallai fod yn ofynnol i'r athro weithio), am 1258.5awr, a bydd yr

¹⁹ O.J. Rhif L307, 13.12.93 t. 18 a gafodd ei weithredu gan Reoliadau Amser Gwaith 1998 (O.S. 1998/1833).

oriau hynny yn cael eu dyrannu mewn ffordd resymol trwy gydol y diwrnodau hynny yn ystod y flwyddyn ysgol pan fydd gofyn i'r athro fod ar gael i weithio.

- 50.6 Mae paragraff 50.5 yn gymwys i athro a gyflogir yn rhan amser, ac eithrio bod yn rhaid i nifer yr oriau y mae'n rhaid i'r athro fod ar gael i'w gweithio gyfateb i'r gyfran honno o 1258.5 awr sy'n cyfateb i gyfran o gyfanswm y tâl y mae gan yr athro'r hawl i'w gael yn unol â pharagraffau 39 a 40.
- 50.7 Yn ogystal â'r oriau y mae'n ofynnol i athro fod ar gael i'w gweithio o dan baragraff 50.5 neu 50.6, rhaid i athro weithio'r cyfryw oriau ychwanegol rhesymol ag y bydd angen eu gweithio o bosibl er mwyn galluogi'r athro i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol mewn ffordd effeithiol, gan gynnwys, yn arbennig, cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi; ac asesu, monitro, cofnodi ac adrodd am anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau disgyblion a neilltuwyd.
- 50.8 Ni chaiff y cyflogwr bennu faint o'r oriau ychwanegol y cyfeirir atynt ym mharagraff 50.7 y mae'n rhaid eu gweithio neu pryd y mae'n rhaid gweithio'r oriau hyn.
- 50.9 Yn ddarostyngedig i baragraff 50.10, ni fydd yn ofynnol i unrhyw athro a gyflogir yn rhan amser fod ar gael i weithio ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos neu ran o unrhyw ddiwrnod o'r wythnos nad yw'n ofynnol i'r athro fod ar gael i weithio arnynt fel arfer o dan ei gontract cyflogaeth (os bydd hynny at ddibenion addysgu disgyblion a chyflawni dyletswyddau eraill neu er mwyn cyflawni dyletswyddau eraill yn unig).
- 50.10 Yn ddarostyngedig i baragraffau 50.6 a 50.11, efallai y bydd yn ofynnol i athro rhan amser gyflawni dyletswyddau, ac eithrio addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau ysgol ar unrhyw ddiwrnod y mae'n ofynnol i'r athro fod ar gael i weithio fel arfer (p'un a fydd yn ofynnol i'r athro fod ar gael i weithio'r diwrnod cyfan hwnnw neu ran o'r diwrnod hwnnw yn unig fel arfer).
- 50.11 Ni chaiff cyfanswm yr amser y bydd modd gofyn i'r athro fod ar gael er mwyn cyflawni dyletswyddau, ac eithrio addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau ysgol o dan baragraff 50.10 pan gaiff ei fynegi fel cyfran o gyfanswm yr amser y byddai gofyn i'r athro fod ar gael i wneud gwaith o'r fath, pe bai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd o dan drefniant llawn amser, fod yn fwy na'r amser sy'n gyfwerth â'r gyfran honno o gyfanswm y tâl y mae gan yr athro hawl i'w gael o dan baragraffau 39 a 40.
- 50.12 Nid yw'r amser y bydd athro yn ei dreulio yn cymryd yr egwyl y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 51.3 neu'n teithio i'w fan gwaith ac oddi yno, yn cyfrif tuag at y 1258.5 awr y cyfeirir atynt ym mharagraff 50.5 neu'r amser cyfwerth â pro rata y cyfeirir ato ym mharagraff 50.6, yn ôl y digwydd.

Hawliau a roddir - pob athro

51. Hawliau cyffredinol

- 51.1 Ni fydd yn ofynnol i unrhyw athro weithio ar unrhyw ddydd Sadwrn, dydd Sul na gŵyl gyhoeddus oni fydd ei gontract cyflogaeth yn nodi hyn yn benodol (er enghraifft yn achos athrawon mewn sefydliadau preswyl).
- 51.2 Ni fydd yn ofynnol i unrhyw athro ymgymryd â gwaith goruchwylio canol dydd o dan ei gontract cyflogaeth fel athro.

Egwyl ddyddiol

- 51.3. Rhaid i athro y mae'n ofynnol iddo fod ar gael i weithio mwy nag un sesiwn ysgol yn ystod unrhyw ddiwrnod ysgol gael cyfnod rhesymol o egwyl naill ai rhwng sesiynau ysgol neu rhwng canol dydd a 2.00pm. Mae hawl gan ddirprwy benaethiaid, penaeithiaid cynorthwyol ac athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol i gael cyfnod rhesymol o egwyl tua chanol dydd bob diwrnod ysgol fel y bo'n rhesymol ymarferol.

Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

- 51.4. Rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid, wrth gyflawni eu dyletswyddau, ystyried yr angen i'r pennaeth a'r athrawon yn yr ysgol allu sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sydd arnynt ei angen i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol, gan gynnwys yn benodol, yn achos athrawon y mae paragraffau 50.2 i 50.12 yn berthnasol iddynt, eu dyletswyddau o dan baragraff 50.7 a'r amser sydd arnynt ei angen i ddilyn eu diddordebau personol y tu allan i'r gwaith. Gan ystyried hyn, dylai gyrff llywodraethu a phenaethiaid sicrhau eu bod yn cadw at y terfynau gwaith a nodir yn y Rheoliadau Amser Gwaith 1998⁽²⁰⁾.

Amser cynllunio a pharatoi wedi'i warantu

- 51.5. Mae gan bob athro sy'n addysgu disgyblion yr hawl i gael cyfnodau rhesymol o amser i Gynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) fel rhan o'r 1258.5 awr y cyfeirir atynt ym mharagraff 50.5 neu gyfwerth pro rata (yn ôl y digwydd) er mwyn eu galluogi i gyflawni cyfrifoldebau proffesiynol addysgu ac asesu. Rhaid darparu amser CPA mewn unedau heb fod yn llai na hanner awr yn ystod wythnos amserlen addysgu'r ysgol a rhaid iddo beidio â bod yn llai na 10% o amser addysgu a amserlennir yr athro. Rhaid peidio â gofyn i athro gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ystod amser CPA yr athro.

²⁰ O.S. 1998/1833.

Amser rheoli

51.6. Mae gan athro sydd â chyfrifoldebau arwain neu reoli, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yr hawl i gael amser rhesymol yn ystod sesiynau ysgol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

Cyflenwi

51.7. Dim ond ar adegau prin y dylid gofyn i athrawon gyflenwi yn unol â pharagraff 49.7, a dim ond o dan amgylchiadau annisgwyl (nid yw hyn yn gymwys i athrawon a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn darparu gwasanaeth cyflenwi o'r fath).

Gweinyddu ac arholiadau allanol

51.8. Ni ddylai fod yn ofynnol i athro gymryd rhan yn rheolaidd mewn tasgau gweinyddol, clercol a threfniadol nad ydynt yn galw am arfer sgiliau a barn broffesiynol athro gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol megis goruchwyllo.

Hyfforddiant a datblygiad

51.9. Dylai cyngor, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, gan gynnwys anghenion a nodwyd mewn amcanion neu mewn datganiadau neu adroddiadau gwerthuso fod ar gael i bob athro yn yr ysgol.

51.10. Ni chaiff athro sydd ynghanol cyfnod ymsefydlu o dan y Rheoliadau Sefydlu⁽²¹⁾ addysgu am fwy na 90% o'r amser y byddai disgwyl i athro yn yr ysgol nad yw'n ddarostyngedig i'r rheoliadau hynny addysgu.

²¹ Ystyr "Rheoliadau Ymsefydlu" yw Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 20015 (S.I. 2015/484).

Atodiad 1: Safonau athrawon

Cyflwyniad

Cyflwynir y safonau addysgu ac arweinyddiaeth proffesiynol newydd a'r safonau athrawon wrth eu gwaith presennol yn y Ddogfen hon gan eu bod yn ategu'r broses werthuso a'r broses asesu er mwyn cael y raddfa gyflog uwch.

Safonau athrawon

Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Cafodd y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth eu lansio yng Nghymru ym mis Medi 2017. Mae athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi 2017 yn gweithio tuag at y safonau newydd. Bydd athrawon newydd gymhwyso a ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu cyn 1 Medi 2017 yn parhau i ddefnyddio'r safonau athrawon wrth eu gwaith a ddefnyddiwyd ar ddechrau eu cyfnod ymsefydlu (gweler isod). Bydd pob athro ar ôl cyfnod ymsefydlu yn symud i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth newydd erbyn 1 Medi 2018.

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn cynnwys pum safon broffesiynol â gwerthoedd a thueddiadau cyffredinol. Gwahenir pob safon broffesiynol yn elfennau â disgrifwyr sy'n enghreifftio'r ffordd o gymhwyso pob safon.

Ceir y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn yr **adran larlwytho dogfennau**: <http://dysgu.llyw.cymru/resources/collections/professional-standards?lang=cy#collection2>

Safonau athrawon wrth eu gwaith

Bydd athrawon newydd gymhwyso a ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu cyn 1 Medi 2017 yn parhau i ddefnyddio'r safonau athrawon wrth eu gwaith yn eu cyfnod ymsefydlu. Ar ôl iddynt gwblhau eu cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, byddant yn mabwysiadu'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Ceir y **safonau proffesiynol i athrawon wrth eu gwaith** yn yr adran **Trosolwg** yn: <http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy#collection-2>

Atodiad 2: Dehongli

1. Yn y Ddogfen hon:

- ystyr “Rheoliadau 2011” yw Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011⁽²²⁾ a dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at “adolygydd”, “adolygiad”, “canlyniadau’r adolygiad” neu “datganiad cynllunio ac adolygu” yng nghydestun y Rheoliadau hynny, yn unol â hwy;
- ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Addysg 2002⁽²³⁾;
- ystyr “athro sgiliau uwch” yw athro a gyflogwyd fel athro sgiliau uwch yn unol â Dogfen 2012 neu Ddogfen flaenorol;
- dylid dehongli “gwerthusiad” yn unol â rheoliadau 2011;
- ystyr “pennaeth cynorthwyol” yw athro cymwysedig â chyfrifoldebau arwain drwy’r ysgol gyfan a benodwyd i swydd pennaeth cynorthwyol;
- ystyr “awdurdod” yw awdurdod lleol yng Nghymru; ac mewn perthynas ag ysgol, awdurdod sy’n cynnal yr ysgol;
- ystyr “athro ystafell ddosbarth” yw athro cymwysedig nad yw’n aelod o’r grŵp arweinyddiaeth nac ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol;
- ystyr “dirprwy bennaeth” yw athro cymwysedig a benodwyd i staff addysgu ysgol fel dirprwy bennaeth yn unol â Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006⁽²⁴⁾ ac mae’n cynnwys athro a benodwyd yn ddirprwy bennaeth dros dro ond nad yw’n athro sydd wedi’i neilltuo ac sy’n cyflawni dyletswyddau dirprwy bennaeth heb gael ei benodi felly;
- ystyr “Dogfen flaenorol” yw unrhyw Ddogfen y cyfeirir ati mewn unrhyw orchymyn a wneir yn unol ag adran 122 o’r Ddeddf neu adran 2 o Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 1991⁽²⁵⁾ ac eithrio’r Ddogfen hon;
- ystyr “sefydliad addysgol” yw ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig arbennig (heblaw am ysgol y mae gorchymyn a wnaed o dan adran 128(2) o’r Ddeddf yn gymwys) ac unrhyw sefydliad arall sy’n dod o dan y diffiniad o athro ôl-drothwy a lle mae’r athro yn cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi i ddarparu addysg gynradd neu uwchradd.
- ystyr “ERA 1996” yw Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996⁽²⁶⁾;
- ystyr “cynllun hyfforddi athrawon sy’n seiliedig ar gyflogaeth” yw unrhyw gynllun a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan Rheoliadau Addysg Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012⁽²⁷⁾;

²² O.S. 2011/2940.

²³ 2002 (c.32).

²⁴ O.S. 2006/873.

²⁵ 1991 (c.49), diddymwyd gan y Ddeddf.

²⁶ 1996 (c.18).

²⁷ O.S. 2012/724.

- ystyr “athro rhagorol” yw athro a gyflogwyd fel athro rhagorol yn unol â Dogfen 2012 neu Ddogfen flaenorol;
- ystyr “athro graddedig” yw athro sydd wedi cael awdurdod i addysgu yn unol â pharagraffau 5 i 9 o Atodlen 2 i Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999⁽²⁸⁾ cyn 1 Medi 2004;
- ystyr “pennaeth” yw unigolyn a benodwyd i staff addysgu ysgol fel pennaeth, ac mae’n cynnwys unigolyn a benodwyd yn bennaeth dros dro i gyflawni swyddogaethau pennaeth yn unol ag adran 35(3) neu 36(3) o’r Ddeddf ond nid athro sy’n cyflawni dyletswyddau pennaeth heb gael ei benodi i’r swydd honno;
- ystyr “nam ar y clyw” yw byddar neu rannol fyddar;
- mae “sefydliad addysg bellach neu addysg uwch” yn cynnwys sefydliad sy’n darparu addysg bellach ac addysg uwch;
- ystyr “ymarferwr arweiniol” yw athro mewn swydd sydd â’r prif ddiben o fodelu ac arwain y broses o wella sgiliau addysgu;
- ystyr “aelod o’r grŵp arweinyddiaeth” yw pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol;
- ystyr “un o ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn” yw sefydliad addysgol y mae ei brif bwrpas yn ymwneud â chynnig darpariaeth ar gyfer plant sydd â rhiant yn lluoedd arfog y Goron ac a weinyddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac eithrio’r sefydliadau addysgol a elwir yn Queen Victoria School, Dunblane a Welbeck College, Loughborough;
- ystyr “ysgol arferol” yw ysgol ac eithrio ysgol arbennig;
- ystyr “athro ôl-drothwy” yw athro ystafell ddosbarth:
 - a) i. sydd, yn unol â Dogfen gynharach, wedi’i asesu’n athro sy’n cyrraedd y safonau trothwy perfformiad drwy gydol y cyfnod perthnasol;
 - ii. yn unol ag unrhyw Ddogfen a gyhoeddwyd rhwng 2007 a 2011 wedi bodloni’r sawl y rhoddwyd y dasg iddo fod yr athro yn cyrraedd y safonau craidd ac wedi’i asesu gan yr unigolyn hwnnw yn athro sydd wedi cyrraedd y safonau ar gyfer athro ôl-drothwy drwy gydol y cyfnod perthnasol; neu
 - iii. yn unol â Dogfen 2012 wedi bodloni’r sawl y rhoddwyd y dasg iddo fod yr athro yn cyrraedd Safonau Athrawon a’r safonau ar gyfer athro ôl-drothwy. At ddibenion yr is-baragraff hwn, ystyr “Safonau Athrawon” yw’r

²⁸ Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/140 (W. 8) O.S. 1999/2817. Diddymwyd Atodlen 2 yn amodol ar arbedion a darpariaethau trosiannol a nodwyd yn Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1744).

safonau proffesiynol newydd a'r Safonau Athrawon Wrth eu Gwaith a nodir yn Atodiad 1 i'r Ddogfen hon;

- b) a oedd yn cael ei gyflogi'n flaenorol fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth ac yn achos athro a benodwyd gyntaf fel y cyfryw ar neu ar ôl 1 Medi 2000, a oedd yn llenwi swydd neu swyddi o'r fath am gyfnod cyfunol o flwyddyn neu fwy;
 - c) sydd wedi dal swydd athro sgiliau uwch neu athro rhagorol
 - d) sydd wedi'i ardystio gan aseswr a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn athro sy'n cyrraedd y safonau a nodwyd yn Atodiad 2 i Ddogfen 2006 neu'r safonau ar gyfer athro sgiliau uwch a nodwyd yn Atodiad 1 i Ddogfen 2012 ond nas penodwyd i rôl athro sgiliau uwch;
 - e) sydd wedi'i gyflogi'n athro cymwysedig ar unrhyw adeg:
 - i. yn un o ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn;
 - ii. gan Fforwm Gweithredu Addysg;
 - iii. mewn academi, coleg technoleg dinas neu goleg dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau yn Lloegr;
 - iv. mewn ysgol arbennig nas cynhelir;
 - v. mewn sefydliad a gynhelir gan awdurdod wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol; neu
 - vi. gan berson a benodwyd yn unol â chyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 497A o Ddeddf Addysg 1996⁽²⁹⁾ i gyflawni swyddogaethau awdurdod ac a oedd yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw yn union cyn y gyflogaeth hon;
 - f) sydd wedi'i benodi felly mewn ysgol ac wedi'i gyflogi'n flaenorol, heb fod yn llai na blwyddyn, gan awdurdod lleol fel cynghorydd addysgol neu arolygydd a'i dalu ar golofn cyflog Soulbury;
 - g) sydd wedi'i asesu'n athro sy'n cyrraedd safonau proffesiynol colegau chweched dosbarth;
 - h) wedi'i asesu'n athro sy'n cyrraedd safonau trothwy Gogledd Iwerddon; neu
 - i) sydd wedi'i gyflogi'n athro cymwysedig heblaw am gan gorff perthnasol ac yn ystod cyflogaeth o'r fath wedi'i asesu'n athro sy'n cyrraedd yr holl safonau trothwy a bod yr asesiad wedi'i gymeradwyo gan aseswr a benodwyd o dan drefniadau a wnaed at y diben hwnnw gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- mae i "safonau ôl-drothwy" yr un ystyr ag a roddir yn Nogfen 2012;
 - mae "cyfnod rhagarweiniol" yn golygu unrhyw gyfnod o addysg cyn y cyfnod allweddol cyntaf;

²⁹ 1996 (c.56).

- ystyr “cyflog cyn diogelu” yw gwerth cyflog athro, heb gynnwys lwfansau nac unrhyw swm a ddiogelir, sy’n daladwy i’r athro cyn i amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 29.1 godi;
- mae i “uned cyfeirio disgyblion” yr un ystyr ag a roddir i’r ymadrodd hwnnw yn adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996⁽³⁰⁾;
- ystyr “athro cymwysedig” yw rhywun sy’n bodloni gofynion a nodir yn y rheoliadau yn unol ag adran 132 o’r Ddeddf⁽³¹⁾;
- ystyr “corff perthnasol” yw:
 - a) yn achos athro mewn ysgol heb gyllideb ddirprwyedig, yr awdurdod sy’n cynnal yr ysgol honno;
 - b) yn achos athro mewn ysgol sydd â chyllideb ddirprwyedig, corff llywodraethu’r ysgol honno; ac
 - c) yn achos athro digyswllt, yr awdurdod sy’n cyflogi’r athro;
- ystyr "safonau perthnasol" yw'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, a chyfeirir at bob un yn Atodiad 1 i'r Ddogfen hon;
- ystyr “tâl” yw cyflog ac unrhyw lwfansau, oni nodir fel arall;
- ystyr “ysgol” yw ysgol a gynhelir gan awdurdod, oni nodir fel arall;
- ystyr “ysgol sy’n peri pryder” yw ysgol y mae adran 44 o Ddeddf Addysg 2005⁽³²⁾ yn gymwys iddi drwy rinwedd isadran (1) (ysgol sydd angen mesurau arbennig), neu (2) (ysgol sydd angen gwella’n sylweddol);
- ystyr “ysgol â chyllideb ddirprwyedig” yw ysgol sydd â chyllideb ddirprwyedig yn unol ag ystyr Pennod 1 yn Rhan 3 o’r Ddeddf, a dylid dehongli “ysgol heb gyllideb ddirprwyedig” yn unol â hynny;
- ystyr “blwyddyn ysgol” yw cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar 1 Medi oni bai bod blwyddyn academiaidd yr ysgol yn dechrau ym mis Awst ac os felly, yr ystyr yw cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar 1 Awst;
- ystyr “lwfans ADY” yw lwfans Anghenion Dysgu Ychwanegol a roddir i athro dosbarth yn unol â pharagraff 21;
- ystyr “ysgol arbennig” yw ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod;
- ystyr “athro” yw athro sy’n athro ysgol yn unol ag ystyr adran 122 o’r Ddeddf, oni nodir fel arall;

³⁰ 1996 (c.56).

³¹ S.I. 2012/724.

³² 2005 (c.18).

- ystyr “athro mewn addysg bellach neu addysg uwch” yw athro:
 - a) gyflogir mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch; neu
 - b) gyflogir fel arall gan awdurdod at ddibenion ei swyddogaethau mewn perthynas ag addysg bellach ac addysg uwch;

ac eithrio athro wedi'i secondio i gorff sy'n ad-dalu swm cyflog yr athro i'r awdurdod cyflogi;
 - ystyr “CAD” yw taliad cyfrifoldeb addysgu a dysgu a roddir i athro dosbarth yn unol â pharagraff 20;
 - ystyr “athro digyswllt” yw:
 - a) athro nad yw ynghlwm wrth ysgol benodol;
 - b) athro a gyflogir mewn man ac eithrio ysgol; neu
 - c) yn Rhannau 2 i 7, athro mewn uned cyfeirio disgyblion (gan gynnwys athro sy'n gyfrifol);
 - ystyr “athro heb gymhwyso” yw athro nad yw wedi cymhwyso ac a bennir drwy Orchymyn yn unol ag adran 122(5) o'r Ddeddf yn athro ysgol at ddibenion yr adran honno⁽³³⁾;
 - ystyr “â nam ar y golwg” yw yn ddall neu'n rhannol ddall.
2. Mae Deddf Dehongli 1978⁽³⁴⁾ yn gymwys i ddehongliad y Ddogfen hon fel pe bai'n Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf.
 3. Lle, o ganlyniad i newid strwythurol (o'r math a ddisgrifir yn adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007⁽³⁵⁾, a ddygwyd i rym drwy orchymyn a wnaed o dan adran 7 o'r Ddeddf honno) neu newid ffin (fel y'i diffinnir yn adran 8 ac a ddygwyd i rym drwy orchymyn a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf honno), mae awdurdod yn peidio ag arfer swyddogaethau awdurdod mewn perthynas ag ardal a lle mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy gan awdurdod arall wedyn (“yr awdurdod trosglwyddedig”) mewn perthynas â'r ardal honno, rhaid ystyried mai'r un awdurdod yw'r awdurdod sy'n trosglwyddo a'r awdurdod trosglwyddedig yn y Ddogfen hon.
 4. Lle, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994⁽³⁶⁾, y caiff swyddogaethau awdurdod a ddiddymwyd (“yr hen awdurdod”) o dan y Deddfau Addysg mewn perthynas ag ardal eu trosglwyddo i awdurdod newydd mewn perthynas â'r ardal honno (“yr awdurdod newydd”), rhaid ystyried mai'r un awdurdod yw'r hen awdurdod a'r awdurdod newydd yn y Ddogfen hon.

³³ O.S. 2003/1709.

³⁴ 1978 (c.30).

³⁵ 2007 (c.28).

³⁶ 1994 (c.19).

5. Rhaid trin athro heb gymhwyso sy'n bennaeth fel athro cymwysedig at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddogfen hon.
6. Mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi'i rifo yn cyfeirio at rif yr is-baragraff hwnnw yn y paragraff lle gwneir y cyfeiriad hwnnw, oni nodir fel arall.
7. Bydd person wedi cwblhau "blwyddyn o gyflogaeth" os bydd:
 - a) wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n rhoi cyfanswm o chwe wythnos ar hugain o leiaf yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol yn achos paragraff 11.1 a 19 neu yn ystod y deuddeg mis blaenorol yn achos paragraff 30. At y dibenion hyn, mae cyfnod o gyflogaeth yn rhedeg o ddechrau'r wythnos y mae'r gyflogaeth yn dechrau i ddiwedd yr wythnos y caiff y gyflogaeth ei therfynu ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau o wyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch neu anaf, p'un a fu gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn amser neu'n rhan amser, rheolaidd neu fel arall;
 - i) pan fydd unigolyn yn absennol o'r gwaith:
 - ii) wrth arfer ei hawl i gyfnod mamolaeth yn unol ag adran 71 neu 73 o ERA 1996 neu ei chontract cyflogaeth, a bod ganddi'r hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn rhinwedd yr adrannau hynny neu ei chontract cyflogaeth; yr hawl i absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o ERA 1996; yr hawl i absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A, 80B, 75E neu 75G o ERA 1996; neu'r hawl i absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A neu 75B o ERA 1996; neu oherwydd ei beichiogrwydd;
 - b) mae'r cyfnod o absenoldeb yn cyfrif tuag at y cyfnod o chwe wythnos ar hugain o wasanaeth o leiaf y cyfeirir ato ym mharagraff (a); ac
 - c) pan fydd unigolyn yn absennol o'r gwaith am unrhyw reswm ac eithrio'r rhesymau a nodir yn is-baragraff (a) neu (b), gall y corff perthnasol bennu bod y cyfnod o absenoldeb yn cyfrif fel pe bai'r unigolyn mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Atodiad 3 - Canllawiau i Awdurdodau Lleol, Arweinwyr Ysgol, Athrawon Ysgol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (mewn perthynas â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Adran 2 uchod))

1. Cyhoeddir y canllaw hwn gan Lywodraeth Cymru yn unol ag adran 127 o Ddeddf Addysg 2002⁽³⁷⁾. Dylid ei ddarllen ar y cyd ag unrhyw baragraffau cysylltiedig yn Nodfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2021 (y Ddogfen). Rhaid i ALLau a chyrff llywodraethu ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru am y weithdrefn i'w dilyn wrth gymhwyso darpariaethau'r Ddogfen. Caiff llys neu dribiwnlys ystyried unrhyw fethiant gan gyflogwr i wneud hynny mewn unrhyw achos. Mae'r canllaw hwn yn disodli canllaw Adran 3 2020.
2. Mae cyfeiriadau at baragraffau yn y canllaw hwn yn cyfeirio, oni nodir fel arall, at rifau paragraff yn y Ddogfen. Mae'r term 'corff perthnasol' yn dynodi'r corff (naill ai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol (ALI) sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch cyflogau.
3. Mae'r Ddogfen yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyflog ac amodau athrawon, nid staff cymorth, y caiff eu cyflog a'u hamodau eu pennu'n lleol. Ni cheir cymhwyso unrhyw daliadau nac amodau cyflogaeth ac eithrio'r rheini a gwmpesir yn y Ddogfen i athrawon, ac eithrio'r amodau hynny a bennir yn lleol bob amser ac nad ydynt yn mynd yn groes i'r Ddogfen, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi caniatáu eithriadau yn unol â deddfwriaeth arall. Nid yw'r Ddogfen yn cwmpasu taliadau bonws na 'honoraria' o dan unrhyw amgylchiadau.

Polisi cyflog (paragraff 2)

4. Rhaid i bob corff – cyrff llywodraethau ac awdurdodau lleol os mai nhw yw'r corff perthnasol, gan gynnwys ar gyfer pob athro digyswllt – feddu ar bolisi cyflog. Dylai polisiâu cyflog gael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau er mwyn ystyried unrhyw godiad i'r fframwaith cenedlaethol ac unrhyw newidiadau cyfreithiol neu newidiadau yn y strwythur staffio sy'n cael effaith ar benderfyniadau cyflog.
5. Dylid bob amser ymgynghori ag athrawon a chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig ar lunio'r polisiâu ac ar unrhyw newidiadau iddynt. Dylai fod modd bob amser i athrawon gael gweld copïau o bolisi cyflog y corff perthnasol.
6. Rhaid i weithdrefnau pennu cyflog gydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth gwahaniaethu. Felly dylai'r polisi cyflog nodi'n glir gydymffurfiaeth y corff perthnasol â'r deddfwriaeth ganlynol: Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999⁽³⁸⁾, Deddf Cydraddoldeb 2010⁽³⁹⁾ Rheoliadau Gweithwyr Rhan amser (Atal Triniaeth

³⁷ 2002 (c.32).

³⁸ 1999 (c.26).

³⁹ 2010 (c.15).

Lai Ffatriol) 2000⁽⁴⁰⁾ a Rheoliadau Gweithwyr Tymor Penodedig (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2002⁽⁴¹⁾. Dylai gweithdrefnau pennu cyflog hefyd gyd-fynd ag egwyddorion bywyd cyhoeddus – gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.

7. Dylai'r polisi cyflog nodi sut y caiff datblygiad cyflog ei ddyfarnu, oni bai bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt, naill ai fel rhan o adolygiad rheolaidd neu o dan amgylchiadau eraill, gan roi digon o fanylion i alluogi unigolyn i werthfawrogi pa dystiolaeth a ffactorau eraill a ystyrir wrth wneud penderfyniad ynghylch cyflog. Rhaid i'r polisi cyflog hefyd nodi'r weithdrefn sy'n gymwys pan fydd unrhyw athro yn gofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad a wnaed gan y pennaeth neu gorff perthnasol sy'n effeithio ar ei gyflog. Mae'r weithdrefn gwrandawiadau ac apeliadau cyflog yn cyflawni swyddogaeth y weithdrefn gwyno mewn perthynas â materion cyflog, felly ni ddylid ailagor penderfyniadau o dan weithdrefnau cwyno cyffredinol. Nid yw penderfyniadau apêl yn effeithio ar hawliau cyflogaeth statudol athrawon.

Cyflog y grŵp arweinyddiaeth (paragraffau 4-11)

8. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y broses o bennu tâl y pennaeth yn deg ac yn dryloyw. Dylid cadw cofnod priodol o'r rhesymeg dros y penderfyniad ynghylch ystod cyflog y pennaeth (gan gynnwys unrhyw daliadau dros dro a wneir).

Ystod cyflog y pennaeth

9. Rhaid i'r corff perthnasol neilltuo ysgol i grŵp pennaeth a phennu ystod cyflog y pennaeth pryd bynnag y bydd yn cynnig penodi pennaeth newydd. Dylai hefyd ailbennu ystod cyflog y pennaeth os bydd yn ofynnol newid grŵp y pennaeth (gan gynnwys pan ddaw'r pennaeth yn gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol mewn ffederasiwn yn barhaol). Gall hefyd bennu ystod cyflog y pennaeth ar unrhyw adeg os yw o'r farn bod angen adlewyrchu newid sylweddol yng nghyfrifoldebau'r swydd. Ni ddylai'r corff perthnasol ystyried cyflog y pennaeth mewn swydd os bydd yn ailbennu ystod cyflog y pennaeth ar gyfer penodiad newydd.

Cyflog dirprwy benaethiaid / penaethiaid cynorthwyol

10. Dylai'r corff perthnasol bennu'r ystod cyflog ar gyfer dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol pan fydd yn cynnig gwneud penodiad newydd, neu lle mae newid sylweddol yng nghyfrifoldebau dirprwy benaethiaid neu benaethiaid

⁴⁰ O.S. 2000/1551.

⁴¹ O.S. 2002/2034.

cynorthwyol sydd mewn swydd. Dylai ystyried cyfrifoldebau a heriau'r swydd, ac a yw'r swydd yn un anodd ei llenwi.

Penaethiaid sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol

11. Pan benodir pennaeth i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol, dylai'r corff perthnasol bennu'r grŵp pennaeth ar sail cyfanswm nifer y disgyblion ym mhob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol â pharagraffau 6 neu 7.
12. Mae angen hefyd ystyried tâl athrawon eraill sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl y pennaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr athro), y dylid eu cofnodi. Dim ond pan fydd swydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ehangu rôl y pennaeth y dylid cytuno i gynyddu tâl. Ni wneir hynny'n awtomatig.

Terfynau ar daliadau

13. Dylai'r corff llywodraethu oruchwylio rôl gyfan pennaeth ac unrhyw gyfrifoldebau â thâl sy'n gysylltiedig â'r rôl. Dylai hyn sicrhau y gall y corff llywodraethu wneud penderfyniad cwbl hyddysg ynghylch y tâl priodol ar gyfer y pennaeth ac unrhyw oblygiadau dilynol o ran cyflog aelodau eraill o staff a all fod yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn absenoldeb y pennaeth.
14. Dylai fod yn gwbl eithriadol fod cyfanswm y cyflog – gan gynnwys taliadau dros dro – yn fwy na'r terfyn o 25% o'r swm sy'n cyfateb i uchafswm grŵp y pennaeth ar gyfer yr ysgol neu'r ysgolion mewn unrhyw flwyddyn benodol. Os ystyrir bod amgylchiadau cwbl eithriadol sy'n cyfiawnhau taliad sy'n fwy na'r terfyn hwn, rhaid i'r pwyllgor perthnasol gyflwyno achos busnes o blaid y taliad i'r corff llywodraethu llawn. Rhaid i'r corff llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol gan berson neu gorff priodol, a all ystyried darpariaethau'r Ddogfen a ph'un a ydynt wedi'u cymhwysu'n briodol at gyflog y pennaeth a rhoi cyngor i'r corff llywodraethu, cyn iddo benderfynu a ellir cyfiawnhau mynd y tu hwnt i'r terfyn ym mhob achos penodol. Rhaid bod llwybr archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir i'r corff llywodraethu a chofnod llawn a manwl o'r holl benderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu a'r rhesymeg drostynt.
15. Lle y caiff athro daliad o dan baragraff 25 mewn perthynas â dyletswyddau preswyl sy'n ofynnol fel rhan o'r swydd, nid yw'r swm hwnnw yn cyfrif tuag at y terfyn o 25%. Pan roddir budd anariannol i bennaeth o dan baragraff 27 ac nad yw'n fudd tai neu adleoli sy'n ymwneud yn gyfan gwbl ag amgylchiadau personol y pennaeth hwnnw, bydd gwerth ariannol y budd yn cyfrif tuag at y terfyn o 25%.

Penaethiaid sy'n atebol dros dro am fwy nag un ysgol

16. Weithiau, pan fydd swydd pennaeth yn wag ac nad yw'n bosibl penodi dirprwy bennaeth nac aelod arall o'r staff addysgu i gyflawni swydd pennaeth dros dro, gellir penodi pennaeth ysgol arall i fod yn gyfrifol ac yn atebol am yr ysgol honno yn ychwanegol at ei rôl barhaus fel pennaeth ei ysgol ei hun.
17. Dylid ystyried y rôl hon fel prifathrawiaeth dros dro cyhyd â bod trefniadau'n cael eu gwneud i recriwtio pennaeth parhaol neu wneud trefniadau parhaol amgen, fel cyfuno'r ysgolion neu greu ffederasiwn caled. Disgwylir i'r trefniadau dros dro hyn fod am gyfnod penodol o amser ac yn destun adolygiad rheolaidd, ac ni ddylent bara mwy na dwy flynedd.
18. Dylai'r corff perthnasol fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran llwyth gwaith y pennaeth a chyfrifoldebau ychwanegol aelodau eraill o staff yn sgil y trefniant dros dro hwn fel rhan o'r ystyriaethau cyffredinol wrth gytuno i'r pennaeth ymgymryd â'r rôl ychwanegol dros dro.
19. Er mwyn cynorthwyo pennaeth sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol dros dro, dylai cyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw gadarnhau sut y bydd y trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol a sut y cânt eu terfynu.
20. Yn achos trefniadau dros dro o'r fath, rhaid i'r cyflogwr sy'n contractio gyhoeddi amrywiad contract tymor penodol. Bydd hwn yn nodi bod y pennaeth, yn ychwanegol at ei swydd barhaol, yn cael ei gyflogi'n bennaeth yr ysgol(ion) ychwanegol am gyfnod penodol. Ar ddiwedd yr amrywiad yn y tymor penodol, bydd y pennaeth yn dychwelyd i'w swydd wreiddiol.
21. O dan Rheoliadau Cydlafurio⁽⁴²⁾ caiff y cyrff llywodraethu drefnu i gydbwyllgor gael ei sefydlu yn cynnwys llywodraethwyr o'r holl ysgolion dan sylw er mwyn goruchwylio'r trefniadau tymor penodol. Dylai fod gan y cyd-bwyllgor hwn bŵer dirprwyedig i ymdrin â materion yn ymwneud â chyflog a rheoli perfformiad y pennaeth yn ogystal â materion staffio perthnasol eraill. Dylai hefyd fod gan y cyd-bwyllgor hwn bŵer dirprwyedig o ran y trefniadau ariannol a fydd yn gymwys yn ystod y cyfnod cydlafurio. Er enghraifft, dylai'r cyd-bwyllgor bennu unrhyw daliad ar sail cyfrifoldeb ychwanegol dros dro i athrawon, ac eithrio'r pennaeth, ym mhob ysgol, a'r trefniadau ar gyfer adolygu'r taliadau hynny a'u terfynu.
22. Dylai'r cyd-bwyllgor hefyd ystyried amgylchiadau pob ysgol a'r goblygiadau o ran llwyth gwaith, gan gynnwys i ba raddau y mae'r pennaeth yn debygol o fod yn absennol o'r ysgolion unigol. Dylai unrhyw daliadau dros dro a wneir o dan baragraff 10 ystyried cyfrifoldebau llawn y swydd. Pan fydd dirprwy bennaeth yn yr ysgol, gall fod yn fwy priodol cynyddu ei ystod cyflog dros dro er mwyn ystyried y cyfrifoldebau cynyddol yn absenoldeb y pennaeth. Gellir hefyd penodi athro dros dro, yn absenoldeb deiliad y swydd barhaol, i swydd o fewn y strwythur staffio sy'n

⁴² Rheoliadau Cydlafurio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 (O.S. 2012/2655).

denu taliad CAD; ac yn achos athro dosbarth, os nad yw unrhyw un o'r rhain yn briodol, caiff y cyd-bwyllgor ystyried defnyddio taliadau ychwanegol ym mharagraff 26.1(d). Dylai'r cyd-bwyllgor sicrhau bod unrhyw daliad am gyfrifoldebau ychwanegol yn unol â darpariaethau'r Ddogfen a pholisi cyflog yr ysgol.

23. Pan fydd y trefniant ar gyfer y pennaeth yn un dros dro, bydd unrhyw newid i'w gyflog a chyflog athrawon eraill yn drefniant dros dro hefyd, ac ni fydd darpariaethau diogelu yn gymwys pan ddaw'r trefniadau i ben.

Gwasanaethau estynedig

24. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio eu cynlluniau ardal lleol. Fel rhan o'r cynlluniau hynny, gallant ddewis gofyn i ysgol a fyddai'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn barod i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau estynedig ar ei safle i blant a phobl ifanc o'r ardal. Os bydd y pennaeth a'r corff llywodraethu yn cytuno i ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol sylweddol y mae'r pennaeth yn uniongyrchol atebol amdano i'r ALI neu'r Ymddiriedolaeth Plant a bod y pennaeth wedi'i benodi'n bennaeth parhaol yn yr ysgol honno, caiff y corff perthnasol ystyried hyn wrth bennu ystod cyflog y pennaeth. Dylai unrhyw gynnydd mewn cyflog fod yn gymesur â lefel y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd yr ymgymeryd ag ef. Sut bynnag, mae angen ystyried tâl athrawon eraill sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn sgil rôl y pennaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr athro), y dylid eu cofnodi. Dim ond pan fydd swydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ehangu rôl y pennaeth y dylid cytuno i gynyddu tâl. Ni wneir hynny'n awtomatig.
25. Fodd bynnag, pan fydd gan bennaeth fuddiant yn ansawdd gwasanaeth a gydleolir ar safle'r ysgol, er enghraifft, canolfan therapi lleferydd sy'n helpu i ddatblygu pobl ifanc yn yr ysgol neu ar draws nifer o ysgolion, ond nid yw'n gyfrifol nac yn atebol am y gwasanaeth hwnnw, mae hyn yn rhan o gyfrifoldebau craidd pennaeth, felly ni fyddai'n cael ei ystyried wrth bennu ystod cyflog y pennaeth.

Contractau tymor penodol

26. Caiff y corff perthnasol benodi pennaeth ar gontract tymor penodol lle mae'n penderfynu bod amgylchiadau'r ysgol yn gofyn am hynny. Wrth sefydlu contract o'r fath dylai'r corff perthnasol ystyried sut y dylid strwythuro'r broses wobrwyo ac a ddylid asesu'r gwaith o gyflawni amcanion dros derfyn amser byrrach neu hwy nag y byddai'n cael ei bennu fel arfer.

Dilyniant

27. Dylai'r corff perthnasol sicrhau ei fod yn adolygu perfformiad aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, gan ystyried meini prawf datblygiad grŵp arweinyddiaeth.

Aelodau rhan amser o'r Grŵp Arweinyddiaeth

28. Mae'r egwyddor a nodir ym mharagraff 40 uchod hefyd yn gymwys i aelodau'r grŵp arweinyddiaeth. Cyfeiriwch hefyd at baragraff 87 isod ynghylch oriau gwaith (paragraffau 50.1 i 50.4 o'r Ddogfen).

Symud i'r raddfa gyflog uwch (paragraff 15)

29. Mae Paragraff 15 yn nodi trefniadau ar gyfer cyrraedd y raddfa gyflog uwch.
30. O dan y trefniadau, bydd ceisiadau yn llwyddiannus pan fydd y corff llywodraethu yn fodlon:
- a) bod yr athro yn dra chymwys ym mhob elfen o'r safonau perthnasol;
 - b) bod cyflawniadau'r athro a'i gyfraniad at y sefydliad neu sefydliadau addysgol yn sylweddol ac yn barhaus

Dylai ysgolion nodi'n glir yn eu polisiau cyflog sut y byddant yn dehongli'r meini prawf hynny a pha dystiolaeth a ystyrir ganddynt.

31. Mae gan y corff perthnasol gyfrifoldeb cyfreithiol am y broses er y gall ddirprwyo'r broses o dderbyn ac asesu ceisiadau i'r pennaeth (neu berson â chyfrifoldeb rheoli yn achos athrawon digyswllt), yn unol â pholisi cyflog yr ysgol. Mae paragraff 15.1 yn nodi, lle mae athro yn ddarostyngedig i Reoliadau 2011, y bydd y corff perthnasol yn ystyried yr asesiadau a'r argymhellion yn adroddiad gwerthuso'r athro. Bydd angen iddynt edrych ar adroddiadau gwerthuso'r athro, ystyried pob asesiad ac argymhelliad ynddynt, a phennu p'un a yw'r dystiolaeth – gyda'i gilydd – yn dangos bod yr athro yn bodloni'r meini prawf – h.y. bod yr athro yn hynod gymwys ymhob agwedd ar y safonau perthnasol a bod eu cyflawniadau a'u cyfraniad at sefydliad neu sefydliadau addysgol yn sylweddol ac yn barhaus.
32. Mae paragraff 14.3(a) yn cyfeirio at doriad ym mharhad cyflogaeth. Ni fyddai toriad ym mharhad cyflogaeth yn cynnwys, er enghraifft, gyfnod o absenoldeb mamolaeth, secondiad neu drosglwyddiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(43).

⁴³ O.S. 2006/246.

Athrawon a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol (paragraff 16)

Creu swydd sy'n talu cyflog uwch nag uchafswm yr ystod cyflog uwch

33. Mae gan ysgolion y disgrisiwn i greu swyddi ar gyfer athrawon cymwysedig sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain y broses o wella sgiliau addysgu. Nid oes meini prawf cenedlaethol ar gyfer penodi i swyddi o'r fath.
34. Dylai ysgolion hysbysebu unrhyw swyddi gwag a phenodi ymgeiswyr fel y byddent ar gyfer swyddi gwag eraill, gan fodloni eu hunain bod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu arddangos sgiliau addysgu rhagorol ac y byddant yn gallu helpu i arwain y gwaith o wella sgiliau addysgu.
35. Cyfrifoldeb penaethiaid yw penderfynu a ddylai unrhyw swyddi o'r fath gynnwys elfen o allgymorth ai peidio. Nid oes unrhyw ofyniad canolog iddynt wneud hynny.

Ymarferwyr arweiniol rhan amser

36. Mae'r egwyddor a nodir ym mharagraff 40 isod hefyd yn gymwys i athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol. Cyfeiriwch hefyd at baragraff 86 isod ynghylch oriau gwaith (paragraffau 50.1 i 50.4 o'r Ddogfen).

Pennu ystod cyflog unigol o fewn yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

37. Wrth bennu graddfa gyflog unigol ar gyfer athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, dylai'r corff perthnasol ystyried heriau a gofynion y swydd unigol a pherthynoledd cyflog mewnol.
38. Os bydd ysgol yn creu mwy nag un swydd o'r fath, dylid pennu'r ystodau cyflog swydd unigol ar gyfer pob swydd ar wahân a gallant wahaniaethu er mwyn adlewyrchu gofynion a heriau gwahanol pob swydd.

Athrawon digyswllt (paragraff 38)

39. Rhaid i ALLau ystyried eu polisi cyflog a'u strwythur staffio wrth bennu tâl athrawon digyswllt. Felly, dylai ALLau sicrhau y caiff y polisi cyflog a'r strwythur staffio eu diweddarau'n gyson o ran eu hathrawon digyswllt.

Tâl athrawon rhan amser (paragraffau 39-40)

40. Rhaid i'r holl drefniadau cytundebol yr ymrwymir iddynt gydymffurfio â Rheoliadau Gweithwyr Rhan amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000(44) a Deddf Cydraddoldeb 2010(45).
41. Rhaid talu canran o'r cyflog cyfwerth ag amser cyflawn priodol i athrawon rhan amser, fel y'i cyfrifir ym mharagraff 44 isod. Rhaid gweithredu'r un ganran i unrhyw lwfansau a ddyfernir i athro rhan amser.
42. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon rhan amser weithio na mynychu diwrnodau, neu rannau o ddiwrnodau, heb ddisgyblion, ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio, ond dylai fod modd i'r athro fynychu drwy gytuno ar hynny â'r pennaeth, a dylid cymhwyso'r cyfrifiad cyflog ym mharagraff 44 isod at unrhyw oriau ychwanegol a weithiwyd o ganlyniad i hynny.
43. Mae'r wythnos amserlen addysgu yn cyfeirio at oriau sesiwn ysgol a amserlennir ar gyfer addysgu, gan gynnwys amser CPA ac amser digyswllt arall ond heb gynnwys amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau. Defnyddir amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro dosbarth llawn amser fel sail i gyfrifo canran pro rata amserlen wythnos addysgu'r ysgol y cyflogir athro rhan amser ar ei chyfer yn yr un ysgol. Defnyddir y ganran hon i bennu cyfran pro rata tâl athro cyfwerth ag amser cyflawn y mae gan athro rhan amser yr hawl i'w chael. Mae'r ganran yn aros yr un fath p'un a yw'r ysgol yn gweithredu cylch amserlen wythnosol, bob pythefnos neu unrhyw fath arall o gylch amserlen.
44. Mae'r cyfrifiad hwn yn benodol ar gyfer pennu cyfran y tâl (paragraffau 40 i 41) ac oriau gwaith (paragraffau 50.2 i 50.12) ar gyfer athrawon rhan amser ac fe'i defnyddir fel y meincnod i bennu tâl ac oriau gwaith athro rhan amser mewn perthynas â thâl ac oriau gwaith yr athro pe bai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ar sail llawn amser o fewn yr un sefydliad.

⁴⁴ O.S. 2000/1551.

⁴⁵ 2010 (c.15).

Er enghraifft, os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn rhedeg rhwng 9.00am a 12.15pm ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, ag un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y prynhawn, byddai amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro llawn amser yn 25 awr. Pe bai athro rhan amser yn cael ei gyflogi ar gyfer sesiynau'r bore yn unig gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, canran yr athro hwnnw o'r amserlen wythnos addysgu fyddai 15 awr. Dangosir y cyfrifiadau manwl yn y tabl isod:

	Sesiwn y Bore (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	+	Sesiwn y Prynawn (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	x	Nifer y diwrnodau yn yr amserlen (h.y. 5 neu 10 diwrnod)	=	Ysgol(ion Amserlen wythnos addysgu'r Ysgol (AWAY))	% o AWAY
Llawn amser	3 awr	+	2 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan amser	3 awr	+		x	5 diwrnod	=	15 awr	60%

Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn rhedeg rhwng 9.00am a 12.00pm ac eto rhwng 1.00pm a 3.30pm ag un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y prynhawn, byddai amserlen wythnos addysgu'r ysgol yn 25 awr. Pe byddai athro rhan amser yn cael ei gyflogi ar gyfer sesiynau'r bore yn unig gan weithio rhwng 9.00am a 12.00pm bob dydd, canran yr athro hwnnw o amserlen wythnos addysgu'r ysgol fyddai 13.75 awr. Dangosir y cyfrifiadau manwl yn y tabl isod:

	Sesiwn y Bore (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	+	Sesiwn y Prynawn (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	x	Nifer y diwrnodau yn yr amserlen (h.y. 5 neu 10 diwrnod)	=	Ysgol(ion Amserlen wythnos addysgu'r Ysgol (AWAY))	% o AWAY
Llawn amser	2.75 awr	+	2.25 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan amser	2.75 awr	+		x	5 diwrnod	=	13.75 awr	55%

45. Dylai'r corff perthnasol bennu cyfran amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer pob athro rhan amser fel canran o amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro dosbarth llawn amser, gan ddefnyddio'r un dull cyfrifo ag uchod.

Athrawon sy'n gweithio mewn mwy nag un ysgol neu mewn ysgol ag amserlenni wythnos addysgu amrywiol

46. Byddai'r un cyfrifiadau'n cael eu gwneud gan bob corff perthnasol unigol neu, os yw athro'n gweithio mewn rhannau gwahanol o ysgol ag amserlenni wythnos addysgu ysgol gwahanol, byddai'n rhaid gwneud dau gyfrifiad (neu fwy) er mwyn pennu tâl pro rata cyfunol ar gyfer yr athro.

Athrawon digyswllt

47. Yn achos athrawon rhan amser digyswllt, dylai cymharydd 'amserlen wythnos addysgu'r ysgol' fod yn athro llawn amser o fewn yr un gwasanaeth yn yr ALI.

Lwfansau a thaliadau eraill

Taliadau CAD (paragraff 20)

48. Rhaid i'r corff perthnasol barhau i adolygu sawl swydd grŵp arweinyddiaeth a swyddi eraill (gan gynnwys swyddi ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol) sydd eu hangen o fewn ei strwythur staffio ac a yw CAD1 neu CAD2 yn rhan briodol o'r strwythur sydd ei angen i sicrhau addysgu a dysgu o safon uchel barhaus. Os yw CAD1au neu CAD2au yn rhan briodol o'r strwythur hwnnw, rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sawl swydd y dylid neilltuo'r CAD hwn iddynt ynghyd â'r gwerthoedd arian parod priodol yng ngoleuni'r meini prawf a'r ffactorau ar gyfer dyfarnu CAD1 a CAD2 a'r paramedrau y gellir pennu gwerthoedd arian parod yn unol â hwy. Dylid nodi'r cyfrifoldeb neu gyfres o gyfrifoldebau y dyfernir CAD1 neu CAD2 ar eu cyfer yn glir yn swydd-ddisgrifiad deiliad y swydd. Rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth cyflog cyfartal wrth ddyfarnu unrhyw CAD i athrawon unigol a dylai cyrff perthnasol fod yn ymwybodol y gall unrhyw benderfyniadau nad ydynt yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol arwain at wneud ceisiadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth.
49. Disgwylir i athrawon gyfrannu, ar lafar ac yn ysgrifenedig fel y bo'n briodol, at ddatblygu'r cwricwlwm drwy rannu eu harbenigedd proffesiynol â chydweithwyr a rhoi cyngor ar arfer effeithiol. Nid yw hyn yn golygu y gellir disgwyl iddynt fod yn gyfrifol nac yn atebol am faes pwnc neu reoli athrawon eraill heb gael taliad ychwanegol priodol. Dylai cyfrifoldebau o'r fath fod yn rhan o swydd o fewn y grŵp arweinyddiaeth neu'n gysylltiedig â swydd sy'n denu CAD1 neu CAD2 ar y sail a nodir ym mharagraff 20.
50. Dylai cyrff perthnasol bennu gwerth CAD sy'n briodol i'r swydd, o fewn y terfynau a bennwyd ac yn unol â phwys y swydd. Dylid neilltuo'r un gwerth i swyddi o'r un pwys. Dylai fod modd cyfiawnhau penderfyniadau i wneud taliadau uwchlaw'r isafswm cymwys mewn perthynas â lefel y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r

swydd. Ni ddylai cyrff perthnasol ystyried materion recriwtio na chadw, a dim ond yn unol â pholisi cyflog y corff perthnasol y dylid gwneud taliadau ar gyfer y rhain. Unwaith y caiff gwerth CADau ei bennu gan y corff perthnasol, dim ond am ddau reswm y dylid ei newid: (a) mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn argymhell y dylid gwneud newid cyffredinol i werthoedd CAD, ac mae Gweinidogion Cymru yn derbyn ac yn cyflwyno hyn; neu (b) mae'r corff perthnasol yn adolygu ei strwythur staffio ac yn pennu bod cyfrifoldebau'r swydd wedi newid mewn ffordd sylweddol.

51. Dim ond i athrawon mewn swyddi a nodwyd o fewn y strwythur staffio y dylid dyfarnu CAD1au a CAD2au iddynt a hynny'n unol â'r gwerth arian parod a nodir yn y polisi cyflog. Lle caiff CADau eu dyfarnu i athrawon rhan amser, rhaid iddynt gael eu talu ar sail pro rata ar yr un gyfran â chontract rhan amser yr athro.
52. Mae CAD1 a CAD2 yn barhaol tra bydd deiliad y swydd yn parhau yn yr un swydd o fewn y strwythur staffio. Mae'r meini prawf cyffredinol ar gyfer dyfarnu CAD1au a CAD2au yn cynnwys darpariaethau bod yn rhaid i'r cyfrifoldeb y dyfarnir CAD ar ei gyfer fod yn 'barhaus' a bod yn rhaid dyfarnu CAD 'yng nghyd-destun strwythur staffio'r corff perthnasol'. Dim ond ar gyfer prosiectau gwella ysgol â chyfyngiad amser clir iddynt neu gyfrifoldebau allanol untro y gellir dyfarnu CAD3au. Dim ond dros dro y gellir dyfarnu CAD1au a CAD2au os yw'r athro yn cyflawni swydd wahanol o fewn y strwythur staffio dros dro a bod taliad CAD ynghlwm wrth y swydd honno (er enghraifft, cyflenwi ar gyfer secondiadau, cyfnod mamolaeth neu absenoldeb oherwydd salwch neu swyddi gwag sy'n disgwyl penodiad parhaol) ac am hyd y cyfrifoldeb hwnnw. Rhaid cynnwys y dyddiad y daw'r dyfarniad dros dro i ben, neu'r amgylchiadau lle y daw i ben, yn hysbysiad yr athro o benderfyniad cyflog diwygiedig, fel y nodir ym mharagraff 3.4(c)(iii). Ni chaiff athro sy'n cael CAD1 neu CAD2 a ddyfarnwyd dros dro neu sydd ar gytundeb tymor penodol swm a ddiogelir pan ddaw'r CAD i ben, oni bai bod y CAD yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl a bod ei gontract yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad y daw'r CAD hwnnw i ben.
53. Os rhoddir swydd newydd neu gyfrifoldebau diwygiedig i athro, yna rhaid i'r corff perthnasol bennu a yw CAD gwahanol (neu dim CAD) yn gymwys i'r swydd. Ni chaiff athro fwy nag un CAD1 neu CAD2 ar yr un pryd.
54. Dyfarniad am dymor penodol yw CAD3. Dim ond ar gyfer prosiectau gwella ysgol a therfynau amser clir iddynt neu gyfrifoldebau allanol untro y gellir dyfarnu CAD3au. Rhaid cadarnhau'r tymor penodol y maent yn cael eu dyfarnu ar eu cyfer ar ddechrau'r dyfarniad. Ni ddylai'r corff perthnasol ddyfarnu CAD3au olynol ar gyfer yr un cyfrifoldebau. Nid yw CAD3au yn cael eu diogelu.

55. Mae'r ystod ar gyfer CAD3au yn cyfeirio at werth blynyddol dyfarniad o'r fath. Lle y caiff CAD3 ei ddyfarnu am dymor penodol sy'n llai na blwyddyn yna dylid pennu cyfanswm y gwerth yn gymesur â'r gwerth blynyddol. Lle y caiff CAD3 ei ddyfarnu i athro rhan amser ni ddylid diwygio'r gwerth er mwyn adlewyrchu oriau rhan amser yr unigolyn sy'n cael y dyfarniad; nid yw'r egwyddor pro rata yn gymwys i CAD3au.

Lwfans ADY (paragraff 21)

Egwyddorion cyffredinol

56. Gellir cael lwfansau ADY ar yr un pryd â CADau. Fodd bynnag, dylai cyrff perthnasol, wrth adolygu eu strwythurau staffio, wneud y canlynol:
- sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael lwfansau ADY yn cyflawni tasgau y byddai'n fwy priodol i staff cymorth eu cyflawni;
 - ystyried, os oes gan athrawon gyfrifoldebau sy'n bodloni'r holl feini prawf ar gyfer dyfarnu taliadau CAD, oni fyddai'n fwy priodol dyfarnu taliad CAD yn lle lwfans ADY o werth is;
 - peidio â dyfarnu taliadau ADY newydd at ddibenion recriwtio a chadw yn unig; a
 - sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau ADY yn cael eu nodi'n glir mewn swydd-ddisgrifiadau athrawon unigol.
57. Os bodlonir y meini prawf ar gyfer talu lwfans ADY, rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu lwfans a dylai hysbysiad ysgrifenedig yr athro a roddir adeg dyfarnu nodi'r swm a'r rheswm dros y dyfarniad.

Asesu gwerthoedd lwfans priodol

58. Wrth bennu gwerthoedd priodol ar gyfer eu lwfansau ADY, dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi ystyried ystod lawn y taliadau sydd ar gael a bod y gwerthoedd a ddewiswyd wedi'u pennu'n briodol rhwng yr isafswm a'r uchafswm a nodir yn y fframwaith cenedlaethol. Dylid pennu gwerthoedd gwahaniaethol mewn perthynas â rolau ADY yn yr ysgol er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau sylweddol o ran natur a her y gwaith dan sylw yn briodol, fel bod modd cyfiawnhau'r lefelau talu gwahanol mewn modd gwrthrychol.
59. Yn yr un modd, bydd awdurdodau lleol am sicrhau y caiff asesiad gwrthrychol ei gynnal o natur a her y gwaith dan sylw i athrawon yn eu gwasanaethau ADY canolog, er mwyn pennu lefelau perthynol priodol ar gyfer lwfansau rhwng y gwerthoedd cenedlaethol isaf ac uchaf a nodir yn y fframwaith cenedlaethol.

60. Dylai ysgolion ystyried y ffordd y caiff darpariaeth ADY ei threfnu a'i chyflenwi'n lleol ac efallai y byddant am ymgynghori â'u hawdurdod lleol am gyngor ynghylch sefydlu taliadau priodol.

Taliadau ychwanegol (paragraff 26)

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

61. Dylai cyrff perthnasol benderfynu pa weithgareddau DPP y gellir talu athrawon amdanynt a phennu lefel briodol o dâl yn eu polisi cyflog. Dylai taliadau i athrawon ystafell ddosbarth ond gael eu gwneud mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny a wneir y tu allan i'r amser cyfeiriedig o 1258.5 awr ar gyfer athrawon llawn amser; neu'r gyfran briodol o'r 1258.5 awr o amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon rhan amser. Mae cymryd rhan mewn DPP y tu allan i amser a gyfarwyddir yn wirfoddol ac ni ellir ei gyfarwyddo.

Gweithgareddau Hyfforddiant Cychwynol Athrawon (HCA)

62. Dylai cyrff perthnasol benderfynu a ddylid gwneud taliadau ychwanegol i unrhyw athro am weithgareddau sy'n ymwneud â darparu HCA. Dim ond ar gyfer HCA a ddarperir fel digwyddiad arferol yn nhrefn yr ysgol y gellir gwneud taliadau o'r fath. Dylai cyrff perthnasol bennu lefel briodol o dâl ar gyfer gweithgareddau HCA yn eu polisi cyflog.
63. Ac eithrio'r rhai a gyflogir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, y gall fod yn ofynnol iddynt gyflawni'r ddyletswydd hon, mae athrawon sy'n ymgymryd â gweithgareddau HCA yn yr ysgol yn gwneud hynny'n gwbl wirfoddol. Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys goruchwyllo ac arsylwi arfer addysgu; rhoi adborth i fyfyrwyr ar eu perfformiad a bod yn fentoriaid proffesiynol; cynnal seminarau neu diwtorialau ar agweddau ar y cwrs; a chynnal asesiad ffurfiol o gymhwysedd myfyrwyr.
64. Dylid rhoi contractau cyflogaeth ar wahân, nad ydynt yn gontractau addysgu, i ymdrin â'r agweddau ar HCA sy'n ei gwneud yn ofynnol i athro arfer ei farn neu ei sgiliau proffesiynol ond sy'n mynd y tu hwnt i weithgareddau y gellir eu disgrifio'n ddigwyddiad arferol yn nhrefn yr ysgol. Ni ddylai unrhyw athro gyflawni gweithgareddau gweinyddol a chlerigol rheolaidd sy'n gysylltiedig ag HCA.

Darparu gwasanaethau

65. Os yw pennaeth mewn un ysgol yn darparu gwasanaeth i ysgol arall, nid yw'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw yn atebol yn y pen draw am y canlyniadau yn yr ysgol, ond am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dylai'r corff perthnasol y mae ei bennaeth yn darparu'r gwasanaeth bennu faint o dâl ychwanegol, os o gwbl, sy'n ddyledus i'r unigolyn dan sylw, yn unol â darpariaethau'r Ddogfen a pholisi cyflog yr ysgol, er enghraifft os yw'r contract yn gofyn am waith y tu allan i sesiynau ysgol.
66. Mae angen ystyried tâl athrawon eraill sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol o ganlyniad i rôl ychwanegol y pennaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr athro), y dylid eu cofnodi. Dim ond pan fydd swydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ehangu rôl y pennaeth y dylid cytuno i gynyddu tâl. Nid yw'n awtomatig, a dylai fod yn unol â darpariaethau'r Ddogfen a pholisi cyflog yr ysgol.
67. Pan fydd y trefniant ar gyfer y pennaeth yn un dros dro, bydd unrhyw newid i gyflog athrawon eraill yn drefniant dros dro hefyd, ac ni fydd darpariaethau diogelu yn gymwys pan ddaw'r trefniadau i ben. Dylai'r corff perthnasol ystyried defnyddio lwfansau dros dro a thaliadau dros dro eraill mewn ffordd briodol. Os oes dirprwy bennaeth yn yr ysgol, gall fod yn fwy priodol cynyddu ei ystod cyflog dros dro er mwyn ystyried y cyfrifoldebau cynyddol yn absenoldeb y pennaeth. Gellir hefyd benodi athro dros dro, yn absenoldeb deiliad y swydd barhaol, i swydd o fewn y strwythur staffio sy'n denu taliad CAD; ac os nad oes unrhyw un o'r rhain yn briodol, gall y corff perthnasol ddefnyddio taliadau ychwanegol ym mharagraff 26.1(d).
68. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r egwyddorion a'r gofynion gweithredu sy'n gymwys i ddarparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Mae'r holl gyfeiriadau isod at y corff llywodraethu yn cyfeirio at gorff llywodraethu'r ysgol y mae ei phennaeth yn darparu gwasanaethau i ysgol arall.

Darparu gwasanaethau i ysgolion eraill – egwyddorion a gofynion gweithredu

- a) Rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir gan bennaeth un ysgol i ysgol arall gael eu hawdurdodi'n ffurfiol gan y corff llywodraethu ac, os yw'r gwaith yn para mwy na 12 mis, rhaid adolygu cytundeb y corff llywodraethu'n ffurfiol unwaith y flwyddyn, neu'n gynt os yw'n briodol. Dylai'r corff llywodraethu hefyd gytuno ar drefniadau ar gyfer terfynu gwaith o'r fath.
- b) Cyn ymgymryd â gwaith o'r fath, rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried y canlynol:
 - anghenion yr ysgol a'i disgyblion;
 - y manteision y byddai'r gweithgarwch yn eu cynnig i'r ysgol;
 - effaith unrhyw absenoldeb ar aelodau eraill o staff, gan gynnwys eu llwyth gwaith; a
 - llwyth gwaith a chydbwysedd gwaith-bywyd yr holl unigolion dan sylw.
- c) Yn benodol, cyn llunio barn, dylai'r corff llywodraethu fodloni ei hun bod y materion hyn wedi'u hystyried yn llawn o fewn tîm arweinyddiaeth yr ysgol.
- d) Rhaid i'r trefniadau ar gyfer talu am waith allanol, gan gynnwys tâl personol, gael eu nodi'n glir a'u hymgorffori'n ffurfiol mewn protocol gan y corff llywodraethu (neu'r pwyllgor cyllid), a dylid cofnodi penderfyniadau'n briodol.
- e) Dylai'r pennaeth a'r corff llywodraethu fonitro gweithrediad y trefniadau a'u heffaith ar staff a disgyblion, gan gymryd camau lle bo'r trefniadau'n anfoddhaol.
- f) Rhaid cytuno ar drefniant unrhyw daliad, gan gynnwys tâl personol, am wasanaethau allanol ymlaen llaw yn unol â phenderfyniadau'r corff llywodraethu. Rhaid nodi telerau cytundeb o'r fath mewn memorandwm a lofnodir gan gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth, ac unrhyw aelodau eraill o staff dan sylw.
- g) Dylai unrhyw incwm sy'n deillio o ffynonellau allanol ar gyfer gwaith staff ysgol gronni i'r ysgol. Dylai'r corff llywodraethu benderfynu a fyddai'n briodol i aelodau unigol o staff gael tâl ychwanegol am y gweithgareddau hyn ac os felly, bennu'r swm priodol.
- h) Dylai'r corff llywodraethu sicrhau y caiff unrhyw dreuliau y bydd yr unigolyn yn mynd iddynt o ganlyniad i ymgymryd â gwaith ychwanegol eu had-dalu, oni ellir cyfrif amdanynt fel arall.

Gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol

69. Dylai cyrff perthnasol benderfynu a ddylid gwneud taliadau i athrawon sy'n cytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol. Dylai polisi cyflog yr ysgol bennu lefel y taliad. Dim ond ar gyfer y gweithgareddau hynny a gyflawnir y tu hwnt i'r 1258.5 awr o amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon llawn amser; neu'r gyfran briodol o'r 1258.5 awr o amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon rhan amser y dylid gwneud taliadau i athrawon dosbarth. Dylid cadw cofnod o'r holl gytundebau a'r taliadau sy'n ddyledus. Dylai'r athro ddefnyddio ei sgiliau neu'i ddoethineb proffesiynol wrth gynnal unrhyw weithgareddau o'r fath.

Cymhellion a buddiannau ar gyfer recriwtio a chadw staff (paragraff 27)

70. Caiff ysgolion wneud taliadau neu ddarparu cymorth ariannol neu fuddiannau er mwyn helpu recriwtio neu gadw. Gallai blaenswm cyflog ar gyfer blaendal rhent fod yn un o nifer o adnoddau y gall ysgolion fod am ystyried ei ddefnyddio fel cymhelliad ar gyfer recriwtio athrawon newydd a chadw athrawon presennol yn eu gwasanaeth. Ymhlith yr enghreifftiau eraill o gymorth mae benthyciadau tocynnau tymor trafniadaeth tuag at gostau teithio, taliad untro megis cyfraniad at gostau symud, neu lwfans â chyfyngiad amser. Ni ellir rhoi cymhellion na buddiannau recriwtio a chadw ar gyfer ymgymryd â chyfrifoldebau penodol, a dylent fod yn unol â pholisi cyflog y corff perthnasol.
71. Mae cyrff perthnasol yn rhydd i bennu gwerth unrhyw ddyfarniad. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddyfarniad i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth o dan baragraff 27, gan gynnwys buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (y mae'n rhaid pennu gwerth ariannol tybiannol ar eu cyfer), yn ddarostyngedig i'r terfyn cyffredinol ar gyflog a thaliadau ym mharagraff 10.2; a dim ond er mwyn ad-dalu costau tai neu adleoli yr aethpwyd iddynt yn rhesymol y dylid eu dyfarnu.
72. Os caiff athro gymhelliad neu fudd o dan baragraff 27, dylai hysbysiad ysgrifenedig a roddir adeg y dyfarniad nodi:
- (a) a yw'r dyfarniad ar gyfer recriwtio neu gadw;
 - (b) natur y dyfarniad (symiau arian parod, costau teithio neu gostau tai ac ati);
 - (c) pryd/sut y caiff ei dalu (fel y bo'n gymwys);
 - (d) os nad dyfarniad 'untro' ydyw, dyddiad dechrau a chyfnod disgwylid y cymhelliad;
 - (e) dyddiad yr adolygiad sy'n dynodi pryd y gellir ei ddileu; ac

(f) y sail ar gyfer unrhyw godiadau a gymhwysir (fel y bo'n gymwys).

Trefniadau aberthu cyflog (paragraff 28)

73. Caiff cyflogwyr gynnig y trefniadau aberthu cyflog a ddisgrifir ym mharagraff 28 i'w cyflogeion os byddant yn dewis gwneud hynny, ac fe'u hanogir i wneud hynny oherwydd dylai'r trefniadau fod yn niwtral o ran cost. Mae paragraff 28 yn caniatáu i athrawon wirfoddoli ar gyfer trefniadau o'r fath, yn unol â'r cyfyngiadau a nodir yn y paragraff. Dylai awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol am drefniadau o'r fath a gwmpesir o dan baragraff 28 yn cael ei throsglwyddo i athrawon yn eu hysgolion, er mwyn galluogi'r athrawon i fod yn rhydd i benderfynu a yw aberthu cyflog yn ddewis priodol ai peidio. Mae cymryd rhan mewn trefniadau aberthu cyflog yn ddewis gwirfoddol ar ran cyflogeion presennol. Ni chaiff cyflogwyr atal mynediad i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan.

Diogelu (paragraffau 29-37)

Athrawon sy'n cael swm a ddiogelir

74. Dylai'r corff perthnasol sicrhau y caiff rhybudd priodol ei roi o unrhyw ddyletswyddau newydd a roddir i'r athro fel gwaith sy'n gymesur â'i swm neu'i symiau a ddiogelir. Dylid adolygu pob cyfrifoldeb ychwanegol o'r fath yn barhaus, gan gymryd unrhyw gyfryw gamau sydd eu hangen pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben. Bydd penaeithiaid am ystyried a oes angen y ddyletswydd ychwanegol o hyd; a ddylai ddenu taliad ychwanegol bellach (megis taliad (CAD)); ac, os felly, pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i ymgymryd â'r ddyletswydd.
75. Dylai cyrrff perthnasol fod yn ymwybodol o'r egwyddor gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff perthnasol ystyried a yw safle athro ar raddfa gyflog neu lwfans newydd wedi peri i'w gyflog gynyddu cymaint â gwerth ei gyflog blaenorol ac unrhyw swm a ddiogelir yr oedd yn ei gael, neu'n fwy na hynny (ni chaiff newidiadau yng ngwerth lwfansau neu raddfeydd cyflog sy'n deillio o ddarpariaethau'r Ddogfen eu cynnwys)(46). Os telir amrywiaeth o elfennau a ddiogelir, nid yw 'swm a ddiogelir' yn golygu cyfanswm yr holl elfennau a ddiogelir, ond unrhyw elfen a ddiogelir sy'n rhan o'r cyfanswm.
76. Os bydd unrhyw gynnydd o'r fath yn fwy nag unrhyw swm a ddiogelir, rhaid i'r corff perthnasol beidio â thalu unrhyw swm neu symiau sy'n gyfwerth â'r cynnydd neu'n llai na hynny. Os bydd angen penderfynu pa swm neu symiau y dylid rhoi'r gorau i'w talu, dylai'r corff perthnasol bob amser roi'r gorau i dalu'r swm llai neu leiaf yn

⁴⁶ Yn gyffredinol mae hyn yn golygu cynnydd o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog yn dilyn argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Athrawon Ysgol Cymru.

gyntaf, ac yna'r swm lleiaf nesaf, ar unrhyw adeg pan fydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod yr egwyddor yn cael ei chymhwyso'n gywir.

77. Dylai athrawon sy'n cael swm a ddiogelir ar 31 Awst 2013 barhau i gael y swm hwnnw cyhyd ag y bydd darpariaethau Dogfen 2013 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei dalu.
78. Rhaid i daliadau diogelu i'r rhai a gyflogwyd yn flaenorol yn athrawon sgiliau uwch neu'n athrawon rhagorol barhau i gael eu talu'n unol â thelerau Dogfen 2012.

Oriau gwaith (paragraff 50)

Athrawon rhan amser

79. Mae amodau cyflogaeth athrawon rhan amser yn adlewyrchu amodau cyflogaeth athrawon llawn amser (gweler Rhan 7 o'r Ddogfen). Er mwyn osgoi honiadau o wahaniaethu yn erbyn athrawon rhan amser, dylai ysgolion, o leiaf, sicrhau nad yw eu trefniadau ar gyfer defnyddio athrawon rhan amser yn torri'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol ynghylch cyfle cyfartal a gwahaniaethu anghyfreithlon (gweler paragraff 39 uchod).
80. Mae'r cyfrifiad ym mharagraff 43 uchod yn benodol ar gyfer pennu cyfran y tâl (paragraff 40 i 41 o'r Ddogfen) ac oriau gwaith (paragraffau 50.2 i 50.12 o'r Ddogfen) ar gyfer athrawon rhan amser, a dylid ei ddefnyddio fel y meincnod i bennu tâl ac oriau gwaith athro rhan amser mewn perthynas â thâl ac oriau gwaith yr athro pe bai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ar sail llawn amser. Nid yw'r cyfrifiad, nad yw'n cynnwys dyletswydd egwyl, cofrestru a gwasanaethau, yn golygu na ellir gofyn i athrawon rhan-amser gyflawni dyletswyddau o'r fath (gweler Rhan 7 o'r Ddogfen). Nid yw hyn yn pennu'r cymysgedd o addysgu, CPA ac amser digyswllt a gyflawnir gan bob athro rhan amser. Felly, bydd yn bosibl i ddau athro rhan amser yn yr un ysgol fod ar gontract 50%, ond gyda chyfnodau gwahanol o amser addysgu, CPA ac amser digyswllt.
81. Dylai'r corff perthnasol bennu amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer pob athro rhan amser fel canran o wythnos amserlen addysgu'r ysgol ar gyfer athro dosbarth llawn amser, gan ddefnyddio'r un cyfrifiad ag a ddisgrifir ym mharagraff 44 uchod (paragraffau 40 i 41 o'r Ddogfen).
82. Bydd athrawon rhan amser yn cael oriau 'amser cyfeiriedig' yn unol â'r ganran hon o 1258.5 awr; sef nifer yr oriau sy'n gymwys i athro llawn amser mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

83. Er enghraifft os oes gan athro llawn amser mewn ysgol wythnos amserlen addysgu (h.y. mae gan yr ysgol honno gyfanswm amser sesiwn ysgol) o 25 awr a bod wythnos amserlen addysgu'r ysgol ar gyfer athro rhan amser yn rychwantu pob bore rhwng 9.00 a 12.15 (h.y. tair awr heb gynnwys egwyl o 15 munud), y ganran rhan-amser yw 15 dros 25, wedi'i lluosio â 100 i roi 60%. Mae'r ganran yn deillio o'r cyfrifiad ar gyfer tâl athro rhan amser, a ddefnyddir fel y meincnod i bennu tâl ac oriau gwaith athro rhan amser mewn perthynas â thâl ac oriau gwaith yr athro pe byddai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ar sail llawn amser o fewn yr un sefydliad. Felly, byddai'n golygu bod yn rhaid i'r athro rhan amser yn yr enghraifft fod ar gael i weithio 755.1 awr o amser cyfeiriedig (1258.5 x 60%).
84. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon rhan-amser weithio na mynychu diwrnodau, neu rannau o ddiwrnodau, heb ddisgyblion, ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, dylai fod modd i athro fynychu diwrnodau heb ddisgyblion neu weithio ar ddiwrnodau eraill drwy gytuno ar hynny â'r pennaeth. Fodd bynnag, gellir ei gwneud yn ofynnol iddo gyflawni gwaith sydd o fewn ei ddyraniad o amser cyfeiriedig y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn amserlen wythnos addysgu'r ysgol, a ddyrennir yn rhesymol ar unrhyw ddiwrnod neu ran o unrhyw ddiwrnod y mae'n ofynnol iddo weithio.
85. Dylai'r corff perthnasol sicrhau bod pob athro a gyflogir yn rhan amser yn cael datganiad ysgrifenedig y cytunwyd arno sy'n nodi disgwyliadau'r ysgol, a'r athro rhan amser, ynghylch trefnu oriau gwaith. Dylai hyn gynnwys amser addysgu ar yr amserlen ac amser arwain a rheoli lle y bo'n gymwys. Dylai'r datganiad hefyd nodi disgwyliadau'r ysgol o ran amser cyfeiriedig a ddefnyddir y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.
86. Ni ddylid dyrannu cyfran fwy o amser cyfeiriedig i athro rhan amser y tu allan i'w sesiynau arferol nag a wneir ar gyfer athrawon llawn amser, oherwydd gallai hyn fod yn gyfystyr â gwahaniaethu. Wrth drefnu cyfarfodydd a gweithgareddau eraill y tu allan i sesiynau ysgol, dylai penaethiaid geisio osgoi sefyllfaoedd lle dyrennir amser cyfeiriedig i athrawon rhan amser y naill ochr neu'r llall i gyfnod pan nad yw'n ofynnol iddynt fod ar gael i weithio ar unrhyw ddiwrnod penodol, drwy lunio amserlenni cyn belled ag y bo'n bosibl yn unol â phatrymau gwaith.

Grŵp arweinyddiaeth/athrawon ar yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol

87. Nid yw aelodau'r grŵp arweinyddiaeth na'r rhai ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn gweithio o dan gytundeb tymor penodol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau oriau gwaith paragraffau 50.2 i 50.12 o'r Ddogfen. Serch hynny, mae dyletswydd ar y pennaeth (neu'r corff perthnasol yn achos y pennaeth) o hyd i ystyried cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd staff o'r fath, a dylai sicrhau bod llwyth gwaith aelodau rhan amser o'r grŵp arweinyddiaeth a'r rhai ar

yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn rhesymol a'u bod yn cael eu trin yn deg o gymharu â staff cyfwerth ag amser llawn cyfatebol (gweler paragraff 50.1 o'r Ddogfen).

Ffynonellau gwybodaeth bellach

Mae'r dolenni canlynol yn darparu rhagor o wybodaeth gan yr Adran Addysg a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion:

Adnoddau defnyddiol a sefydliadau allanol

[Cyngor a Chanllawiau Acas: Yr hawl i wneud cais am weithio hyblyg \(o 30 Mehefin 2014\)](#)

Deddfwriaeth berthnasol a chyngor adrannol

[Rheoliadau Amser Gwaith 1998](#)

[Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser \(Atal Triniaeth Lai Ffafirol\) 2000](#)

[Rheoliadau Amser Gweithio Hyblyg 2014](#)

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

[Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol \(Cymru\) 2011](#)

[Cyngor – Rhoi Ymagwedd eich Ysgol at Gyflog ar Waith](#)

Adnoddau eraill

Mae [gwefan GOV.UK](#) yn cynnwys cyngor a chanllawiau amrywiol i helpu ysgolion ac ALLau i weithredu cyflog ac amodau.